# Llais Ogwan

Papur Bro Dyffryn Ogwen

Rhifyn 530 · **Ebrill 2022** · 50c

# Estyn yn Canmol Cynnydd




Ddechrau Mawrth, cyhoeddwyd adroddiad gan Estyn, gwasanaeth arolygiaeth ysgolion Cymru, yn dilyn eu harolygiad yn Ysgol Dyffryn Ogwen. Roedd yr adroddiad yn canmol cynnydd y disgyblion yn eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth a'u medrau, gan gyfeirio at gryfder eu cyfraniadau llafar a'r modd y maen nhw'n gwrando'n astud ac yn barchus ar yr athrawon ac ar ei gilydd. Roedd hefyd yn nodi bod yr ysgol wedi llwyddo i godi ei safonau ers yr arolygiad blaenorol.

Roedd yr adroddiad yn rhoi sylw arbennig i alluoedd y disgyblion wrth ddarllen testunau Cymraeg a Saesneg fel ei gilydd ac wrth greu gwaith ysgrifenedig, a hynny er gwaethaf yr heriau niferus sydd wedi wynebu'r disgyblion – a'u hathrawon – yn ystod y ddwy flynedd ddiweddar.

Wrth ymateb i'r adroddiad, meddai Pennaeth Ysgol Dyffryn Ogwen, Mr Dylan Davies:



'Rydym yn hynod falch o gasgliadau'r adroddiad a bod Estyn wedi cydnabod y gwaith diflino sydd wedi ei gyflawni gan yr athrawon wrth sicrhau'r addysg orau i blant a phobl ifanc y dyffryn dros ddwy flynedd heriol iawn. Hoffwn ddiolch i'r llywodraethwyr, i GwE ac i Adran Addysg Cyngor Gwynedd am eu cefnogaeth, gan obeithio'n wir y cawn barhau i ddatblygu ein rhaglenni gwaith wrth i'r pandemig gilio ymhellach.'

Croesawyd yr adroddiad gan Gadeirydd Llywodraethwyr Ysgol Dyffryn Ogwen, y Cynghorydd Paul Rowlinson:

'Croesawaf y ganmoliaeth gan Estyn i gynnydd sylweddol yr ysgol. Ers cychwyn ar eu gwaith fel tîm ym Medi 2019, mae arweinyddiaeth ddeinamig yr ysgol wedi sefydlu, gweithredu a gyrru cynlluniau i wella ansawdd yr addysgu yn ogystal â safonau a medrau'r disgyblion. Yn fuan wedi hynny daeth heriau'r pandemig, gan darfu yn arw ar addysg a phrofiadau'r disgyblion. Rwy'n falch o'r ffordd mae'r pennaeth a holl staff yr ysgol, gyda chefnogaeth y corff llywodraethu, wedi gofalu am les y disgyblion a'u teuluoedd yn y cyfnod anodd hwn ac ar yr un pryd wedi gweithio'n ddiflino i sicrhau gwelliannau cryf.'





# Llais Ogwan

**Rhif 530**
**Ebrill 2022**

**Panel Golygyddol**

**Ieuan Wyn**
(Ffôn 600297)
ieuanwyn01@gmail.com
**Lowri Roberts**
(Ffôn 07815 093955)
l.roberts11@btinternet.com
**Neville Hughes**
(Ffôn 600853)
nev_hughes@btinternet.com
**Dewi A Morgan**
(Ffôn 602440)
dewimorgan@live.co.uk
**Trystan Pritchard**
(Ffôn 07402 373444)
trystanrp1@gmail.com
**Walter a Menai Williams**
(Ffôn 601167)
waltermenai@yahoo.co.uk
**Rhodri Llŷr Evans**
(Ffôn 07713 865452)
Rhodri.llyr.evans@gmail.com
**Owain Evans**
(Ffôn 07588 636259)
owain.evans1@gmail.com
**Carwyn Meredydd**
(Ffôn 07867 536102)
carwynian@hotmail.com
**Rhys Llwyd**
(Ffôn 01248 601606) rmll42@live.co.uk
**Dilwyn Pritchard**
(Ffôn 01248 601880)
d.pritchard@btinternet.com

**Swyddogion**

**CADEIRYDD**
Dewi A Morgan, Park Villa,
Lôn Newydd Coetmor,
Bethesda, Gwynedd
LL57 3DT (Ffôn 602440)
dewimorgan@live.co.uk

**TREFNYDD HYSBYSEBION**
Neville Hughes, 14 Pant,
Bethesda LL57 3PA (Ffôn 600853)
nev_hughes@btinternet.com

**YSGRIFENNYDD**
Gareth Llwyd, Talgarnedd,
3 Sgwâr Buddug, Bethesda
LL57 3AH (Ffôn 601415)
garethllwyd197@btinternet.com

**TRYSORYDD**
Godfrey Northam, 4 Llwyn
Bedw, Rachub, Llanllechid
LL57 3EZ (Ffôn 600872)
godfreydnortham@hotmail.co.uk

**Y Llais drwy'r post:**

Owen G Jones, 1 Erw Las,
Bethesda, Gwynedd
LL57 3NN (Ffôn 600184)
post@llaisogwan.com

## Golygydd y Mis

Golygwyd rhifyn y mis hwn gan
**Rhodri Llŷr Evans.**

Y golygydd ym mis **Mai** fydd
**Lowri Roberts,** 8 Pen y Ffriddoedd,
Tregarth, Bangor, LL57 4NY.
01248 600490.
E-bost: l.roberts11@btinternet.com

Pob deunydd i law erbyn **dydd Sadwrn, 30 Ebrill** os gwelwch yn dda.

Casglu a dosbarthu
**Nos Iau, 19 Mai**
yng Nghanolfan Cefnfaes am 6.45

**DALIER SYLW:** NID OES GWARANT Y BYDD UNRHYW DDEUNYDD FYDD YN CYRRAEDD AR ÔL Y DYDDIAD CAU YN CAEL EI GYNNWYS.

## CLWB CYFEILLION

**Gwobrau Ebrill**

| | |
|---|---|
| £30.00 | Dr. J. Elwyn Hughes, Bethel (146) |
| £20.00 | Rosemary Williams, Ffordd Tanrhiw, Tregarth. (86) |
| £10.00 | Rita Bullock, Maes y Garnedd, Bethesda. (64) |
| £5.00 | Elsie Evans, Garneddwen, Bethesda. (107) |

**Rhoddion i'r Llais**

| | |
|---|---|
| £50.00 | Daisy Jones a'r teulu, er cof annwyl am Alun Glyn Jones, a fu farw ar 24 Ebrill 1982. |
| £5.00 | Barbara Jones, Dolhelyg, Talybont. |
| £60.00 | Dafydd Roberts, Cae'r Wern, Tregarth. |
| £6.50 | Di-enw. |
| £14.50 | A. Speddy, Pant Glas, Bethesda. |

**Diolch yn fawr.**

## YMGYRCH AELODAETH CLWB CYFEILLION LLAIS OGWAN

**Ymateb Ardderchog**
Annwyl gyfeillion,
Gair i ddiolch i bawb sydd wedi ymaelodi yn y Clwb Cyfeillion yn dilyn yr apêl a wnaed yn rhifyn Chwefror o'r Llais.

Rydym bellach wedi croesawu 40 o aelodau newydd, sydd yn golygu fod cyfanswm yr aelodaeth wedi cyrraedd 172. Byddai'n wych pe baem yn medru cyrraedd 200! Beth am fynd amdani? (Gyda llaw, mae'n bosib cael aelodaeth ddwbwl drwy dalu £24.00 y flwyddyn yn lle £12.00 – a chael dau rif yn y Clwb.)

Os gwelwch eich ffordd yn glir i ymuno, a dod yn "aelod sengl neu ddwbwl", byddwn wrth fy modd yn clywed oddi wrthych.
Yn gywir iawn,
Neville Hughes. (Trysorydd y Clwb),

14 Ffordd Pant, Bethesda, LL57 3PA.
Ffôn: 01248 600853
E-bost: nev-hughes@btinternet.com

## Llais Ogwan ar CD

Gellir cael copi trwy gysylltu â swyddfa Cymdeithas Deillion Gogledd Cymru, Bangor (01248 353604).
Os gwyddoch am rywun sy'n cael trafferth â'i olwg, ac a hoffai dderbyn copi o'r Llais ar CD bob mis, cysylltwch ag un o'r canlynol:

**Gareth Llwyd** – 601415
**Neville Hughes** – 600853

## Archebu trwy'r post

**Gwledydd Prydain** – £22
**Ewrop** – £30
**Gweddill y Byd** – £40
Owen G. Jones, 1 Erw Las, Bethesda, Gwynedd LL57 3NN
post@llaisogwan.com
01248 600184


• CANOLFAN CEFNFAES •

**Bore Coffi**
**Plaid Cymru**

**Sadwrn,**
**30 Ebrill 2022**
10.00 – 12.00

**Mynediad :**
**£1.00**

• CANOLFAN CEFNFAES •

**Bore Coffi**
**Cymorth Cristnogol**

**Sadwrn, 7 Mai 2022**
10.00 – 12.00

**Mynediad**
**: £1.00**

cymorth cristnogol




# Partneriaeth Ogwen

Croeso mawr i Stephen Owen Williams a ymunodd efo tîm Partneriaeth Ogwen ar ddiwedd mis Ionawr fel Cydlynydd Bws Gwennol Trydan Partneriaeth Ogwen. Bydd Steve yn arwain datblygiad gwasanaeth bws gwennol rhwng Bethesda a Nant Ffrancon. Yn ogystal â hyn, bydd y bws ar gael i fudiadau cymunedol yr ardal i'w logi a bydd hefyd yn cael ei ddefnyddio i helpu'n cymuned i gyrraedd safleoedd gwaith a chymdeithasol tu hwnt i ddalgylch Dyffryn Ogwen. Cyllidwyd y prosiect hwn drwy raglen Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru - Rhaglen Datblygu Gwledig Cymru 2014-2020, a ariennir gan Lywodraeth Cymru a'r Gronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig. Mae Steve yn y broses o gyflwyno'r prosiect i fudiadau'r dyffryn ond os hoffwch wybodaeth bellach yna plîs cysylltwch â **steve@ogwen.org**




## Glasinfryn a Chaerhun

**Mair Griffiths**, (352966) mairpenybryn@gmail.com

**Cydymdeimlo**
Anfonwn ein cydymdeimlad at David a Carol Williams, Fferm Tyddyn Heilyn, Caerhun, a'r holl deulu yn eu profedigaeth o golli mam Carol, Mrs Elizabeth Williams o Dŷ Croes, Ynys Môn yn 92 mlwydd oed. Bydd colled mawr ar ei hôl.

**Cylch Glasinfryn**
Cyfarfu Cylch Glasinfryn ar 9 Mawrth yn y Ganolfan i ddathlu Gŵyl Dewi. Mwynhawyd Cawl blasus wedi ei ddarparu gan Mair a Glenys a phwdin Pavlova bendigedig wedi ei ddarparu gan Kath gyda Carole a Jocelyn yn cyfranu caws a bisgedi i orffen y pryd. Braf oedd cael sgwrsio o amgylch y bwrdd unwaith eto wedi dwy flynedd. Yn ystod y ddwy flynedd fe ddathlodd tair o'r aelodau eu Pen Blwyddi yn 80 oed, sef Glenys, Margaret a Jean a fe ddathlodd Kath a Glyn eu Priodas Diamwnt y llynedd. Cyflwynwyd potyn o flodau'r Gwanwyn i'r bedair (er yn hwyr!). Llongyfarchwyd Kath hefyd ar ddod yn hen nain unwaith eto. Edrychwyn ymlaen at 11 Mai am 2.00yp, gan obeithio y cawn groesawu Cynrig Hughes, 'Rallt, Pentir atom i roi un o'i sgyrsiau difyr, y tro hwn ar "Hanes Plas Pentir". Mae croeso cynnes iawn i bawb ymuno â ni.

**Y Ganolfan**
Daeth nifer reit dda yngŷd i Gyfarfod Blynyddol y Ganolfan ar fore Sadwrn 12 Mawrth. Cyfarfod byr iawn ydoedd, gan nad oedd ddefnydd na gweithgareddau wedi cymeryd lle yn y Ganolfan yn 2020-2021. Mynychwyd y cyfarfod gan Menna Baines, sydd yn cynrychioli Ward Pentir ar y Cyngor Sir nes yr Etholiad ym mis Mai. Diolchodd yn fawr i bobl yr ardal am bob cefnogaeth yr oedd wedi gael gael yn ystod y blynyddoedd tra'n cynrychioli'r ardal. Cafwyd yr Adroddiad Ariannol gan y Trysorydd, Mair Griffiths, a ddatgelodd fod y sefyllfa ariannol yn iach iawn, gan fod pob mudiad a oedd wedi gwneud cais amdano wedi derbyn £10,000 gan ei Awdurdod Lleol, i helpu cymunedau yn ystod y cyfnod clo. Diolchodd y Cadeirydd i Ann Williams am ei gwaith clodwiw yn cadw'r Ganolfan yn lân, ac am iddi gadw llygaid ar y lle dros gyfnod y clo. Etholwyd pwyllgor ar ddiwedd y cyfarfod gan ethol Vivek Thuppil yn Gadeirydd.

Yn dilyn y Cyfarfod Blynyddol cynhaliwyd Pwyllgor Rheoli y Ganolfan. Etholwyd Marred Glyn Jones yn Ysgrifennydd a Mair Griffiths yn Drysorydd. Cafwyd wybod gan Mair fod Cyngor Cymuned Pentir, yn garedig iawn, yn gosod drysau tân newydd a ffenestri yn y toiled a'r stordy. Bydd y Cyngor Cymuned hefyd yn talu am gysylltu'r adeilad i'r prif bibell carthffosiaeth yn y pentref, disgwylid i hynny ddigwydd ym Mis Mai. 'Roedd amcangyfrif wedi eu derbyn i gael gwresogyddion newydd i'r adeilad yn ogystal â sychwr dwylo trydan yn y toiled. Penderfynwyd yn unfrydol ar Jason Jôs a'i Gwmni i wneud y gwaith. 'Roedd Snowdownia Fire Service wedi bod yn gwasanaethu y diffoddwyr tân a gosod rhai newydd. Gan fod digon o dir o amgylch y Ganolfan penderfynnwyd edrych i mewn i gael seddi a byrddau ar y gwair fel y gall pobl fynd yno i eistedd a mwynhau yr olygfa hyfryd a bywyd gwyllt sydd o'n cwmpas. Bydd y cyfarfod nesaf ar 3 Mai am 10.45yb

**Llwybr Tros Waen**
Mae'n bleser cerdded ar y llwybr uchod 'rwan! Mae Cyngor Gwynedd wedi gosod treini ar y llwybr o Waen Weni i Lasinfryn lle 'roedd llawer iawn o ddŵr yn byrlymu i lawr i'r pentref yn ystod y tywydd garw sydd wedi bod dros y blynyddoedd diwethaf.

**Dymuniadau gorau**
Pob dymuniad da am wellhâd buan i Mr Arfon Evans, Cae Garnedd, (gynt o Penhower Uchaf, Caerhun) sydd wedi dod adref o Ysbyty Gwynedd ar ôl nifer o wythnosau. Brysiwch wella! Daeth y wybodaeth i law wrth i newyddion fynd i'r wasg fod Mrs Elizabeth Evan, gwraig Arfon, yn Ysbyty Gwynedd. Dymunir adferiad buan iddi hithau hefyd ac y bydd adref yn fuan.

**Llwyddiant**
Mae Anna Griffith (Pritchard), Bryn Gwredog Isaf, Waen Wen wedi ennill Gŵydd (Loom) mewn cystadleuaeth "Alison Morton Award" oedd yn cael ei drefnu gan y Theo Moorman Trust. Y wobr oedd Gŵydd Harris Dobby, 16 shafft. Llongyfarchiadau mawr i Anna, edrychwn ymlaen at weld y defnyddiau a'r gwehyddiadau y byddi yn gynhyrchu ar yr ŵydd newydd!

**Llongyfarchiadau**
Dathlodd John a Barbara Chadwick, 28 Bro Infryn, eu Pen Blwydd Priodas Platinwm, (70 mlynedd) ar 27 Mawrth. Llongyfarchiadau mawr iawn i chwi eich dau ar gyrraedd y garreg filltir yma!

Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru

Dilynwch Llais Ogwen ar Trydar **@Llais_Ogwen**

## Rhiwlas

**Iona Jones**, 17 Bro Rhiwen, Rhiwlas
ionarhiwen@hotmail.co.uk (01248 355336)

**Gwobrau Tir Na Nog**
Cafodd Ceri Griffith,Castell y fraint o fod yn aelod o banel beirniadu Gwobrau Tir Na Nog eleni. Mae'r rhestr fer eisioes wedi ei chyhoeddi a cyhoeddir yr enillwyr ar ddydd Iau 2 Mehefin yn Eisteddfod yr Urdd Sir Ddinbych. Mae Manon Steffan Ros ar restr fer categori Uwchradd y wobr yma unwaith eto, gyda'r llyfr "Fi ac Aaron Ramsey", Gwasg y Lolfa. Pob lwc, Manon.

**O gofnodion Cyngor Llanddeiniolen**
*Map enwogion yr ardal*
Unwaith y bydd y mapiau wedi eu cynllunio, gall yr ysgolion weithio ar hanes lleol, grwpiau lleol ac efallai y bydd cyfleoedd am deithiau cerdded, gan roi pwrpas da iddynt. Penderfynwyd trefnu is-bwyllgor i gyfarfod â Gareth Roberts cyn y cyfarfod nesaf. Bydd Phylis Ellis, Hefin Williams, Sasha Williams ac Emma Chappell yn ffurfio'r is-bwyllgor.

*Biniau Halen*
Derbynwyd llythyr gan Gyngor Gwynedd yn datgan na fydd raid i ni drefnu i lenwi'r biniau halen bellach. Mae'r adran wedi cymryd y cyfrfoldeb yn ôl ac felly cysylltu â Chyngor Gwynedd yn syth os oes angen llenwi y bin halen yn ystod y gaeaf.

**Ar y radio**
Bu Elwyn Jones ar raglen Geraint Lloyd ar Radio Cymru. Roedd yn sôn am ei fro, gan enwi Bysys Derfel ac adrodd hanes diddorol am sawl un o'i gerbydau.

Bu Manon Steffan Ros ar y radio hefyd yn westai cyntaf ar raglen Beca Lyne Pirkis, Ar Blât gan sôn am ei hoffter o goginio a phobi.

**Cydymdeimlo**
Trist oedd clywed am farwolaeth Ronnie Hughes o Seion. Roedd y gwasanaeth yng ofal y Parchedig Wynne Roberts, un arall a fagwyd yn Seion gyda Mr D Wynn Williams wrth yr organ. Anfonwn ein cofion at Gwenda, a'r meibion, Bryn, Dilwyn ac Euron.

Fe glywsom hefyd am farwolaeth Barbara Gronow a fu'n cadw'r siop a'r Swyddfa Bost yn y pentref am dipyn o flynyddoedd. Wedi ymddeol, fe ymgartrefodd yn Llanfairfechan.

**Ymddeol**
Wedi gweithio am 42 mlynedd ym Mryn y Neuadd , Llanfairfechan, mae Catherine Williams, Yr Onnen, Caeau Gleision, yn ymddeol. Dymunwn yn dda iddi ar ei hymddeoliad. Braf hefyd oedd clywed fod Gareth yn gwella ac anfonwn ein cofion ato.

**Y faner las a melyn**
Wrth basio'r ysgol a chapel Peniel, y mae'r faner yn chwifio ac yn ein hatgoffa am yr erchyllterau yn Wcráin ac am ddewrder y rhai sydd ar ôl yn y wlad. Does wybod pryd ddaw'r rhyfel i ben a diolch i'r rhai sy'n cyfrannu at apêl Wcráin ac i'r rhai sy'n rhoi lloches iddynt. Diolch i Graham Lumley am roi'r faner inni ei gweld yn ddyddiol.



**Taith Gerddded**
Cynhailwyd Taith Gerdded Neuadd Bentref Rhiwlas ar fore arbennig o braf a daeth criw da ynghyd i fwynhau clywed am hanes yr ardal. Arweinwyd y daith gan Cynrig gyda Richard Ninnes yn rhoi ychydig o hanes Camp.

## DIFYRION DIGIDOL

**Deian ap Rhisiart**

Cafodd cyfarfod cyntaf rhwydwaith newydd Ymateb i'r Heriau Digidol ei gynnal ddechrau Chwefror, gyda nifer o fudiadau a chyrff wedi mynychu, yn cynnwys cyrff darlledu fel S4C a'r BBC, mudiadau cenedlaethol fel Merched y Wawr a Chymdeithas Eisteddfodau Cymru. Fel y soniais yn y golofn ddiwethaf, y bwriad yw cynnig lle i gydweithio, dysgu a rhwydweithio fel mudiadau, mentrau a sefydliadau fel ei gilydd er mwyn hybu cynhwysiad digidol, defnydd o dechnoleg, arloesedd mewn perthynas â'r Gymraeg a chymunedau Cymraeg led-led Cymru.

Yn ystod y cyfarfod cyntaf, cafwyd cyflwyniad difyr gan gyfarwyddwr digidol a marchnata S4C, Owen Derbyshire, a fu'n trafod gwasanaethau digidol y Sianel. Mae S4C yn aelod pwysig iawn o'r rhwydwaith am eu bod yn greuwyr cynnwys holl bwysig yn y Gymraeg ac yn cynnig gwasanaethau ar sawl platfform digidol poblogaidd, tra'n gallu cyrraedd cymaint o wylwyr yn ein cymunedau, sydd o bosib wedi eu hallgau'n ddigidol.

Daeth Marc Davies o gynllun Newid i drafod ei rôl yn cynorthwyo'r trydydd sector gyda'r newid digidol. Bu'n cyfeirio at sawl ffynhonell nawdd sydd ar gael i gynorthwyo cymunedau gyda'u band llydan ac yn son am yr adnoddau sydd gan Newid i helpu pobl i ddefnyddio'r We. Mae Marc ar hyn o bryd yn annog y trydydd sector yng Nghymru i gwblhau holiadur am y digidol yn y sector honno – os ydych yn rhan o'r trydydd sector, mae croeso i chi ei gwblhau: (https://www.surveymonkey.co.uk/r/NewidCymraeg)

Yn dilyn y cyflwyniadau, cafwyd trafodaeth agored rhwng y gwahanol sefydliadau am yr heriau a'r posibliadau trwy'r digidol. Nododd un fod y newid digidol yn digwydd yn rhy gyflym i lawer a'i bod yn cael eu gadael ar ôl. Mae'r pandemig wedi cael effaith andwyol ar weithgareddau cymunedol sy'n digwydd trwy gyfrwng y Gymraeg, roedd rhai mudiadau yn adrodd fod pobl yn *'parhau'n anesmwyth i gyfarfod wyneb yn wyneb eto'* tra fo eraill ar y llaw arall yn awyddus iawn i fynd ac ail gychwyn cyfarfod.

# YSGOL RHIWLAS

**Gwenyn Mêl**
Mae'r grŵp Gwenyn wedi bod allan yr wythnos yma i weld y gwenyn mêl - maen nhw'n gryf iawn ac rydym yn edrych ymlaen at flasu'r mêl blasus. Symudwyd y ddau gwch gwenyn y tymor diwethaf i sicrhau ein bod yn llwyddiannus gyda'r mêl eleni!

**Bwyd Bendigedig Rhiwlas**
Mae'r haul yn tywynnu unwaith eto ac mae'r gwanwyn wedi ein cyrraedd. Ers dros flwyddyn bellach, mae'r grŵp Bwyd Bendigedig Rhiwlas wedi bod yn gweithio'n galed gyda'n disgyblion i blannu llysiau a phlanhigion. Dros y cyfnod yma maent wedi datblygu sawl ardal, wedi ymweld â Thyddyn Teg, plannu yn y Polytunnel ac wedi ffeindio sawl creadur bach yn ein pwll yma yn Ysgol Rhiwlas. Rydym yn edrych ymlaen at dymor llawn hwyl unwaith eto. Rydym yn hynod ddiolchgar i Emily ac Angharad sydd yn rhoi o'u hamser i ni yn wythnosol a hefyd wedi helpu'r Cyfnod Sylfaen gyda'u prosiect. Diolch!






Fe roedd sawl mudiad yn gytûn fod y dyfodol am fod yn *hybrid*, hynny ydi yn gyfuniad o'r digidol a chyfarfod wyneb yn wyneb. Yr her i ni yn y blynyddoedd nesaf yw meithrin sgiliau digidol pobl sy'n weithgar, a bod y dechnoleg honno yn hawdd i'w ddefnyddio, yn ddibynadwy ac yn hygyrch, megis band llydan cyflym, a bod wifi ymhob neuadd gymunedol. Dyma'r cydraddoldeb digidol sydd ei angen. Fe fydd y cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ddiwedd mis Ebrill. Os ydych chi'n rhan o fudiad ac yn awyddus i fod yn rhan o'r Rhwydwaith, cysylltwch gyda mi.

Fy ngwaith fel ymgynghorydd cynhwysiad digidol yw gweithio gyda mudiadau Cymraeg yn y gymuned trwy ymateb yn gadarnhaol i'r heriau digidol sy'n bodoli gan gydweithio trwy'r rhwydwaith ac mewn ffyrdd eraill i wella cynhwysiad digidol trwy'r Gymraeg ac er budd cymunedau. Y bobl sy'n gwirfoddoli yn y gymuned ar hyd a lled Cymru yw asgwrn cefn cymunedau a diwylliant y Gymraeg ac mae'n hanfodol ein bod yn cefnogi'r gweithgaredd hwnnw i oroesi a ffynnu at y dyfodol. Nid oes raid gwirioni ar dechnoleg, y nod yw galluogi pobl i ddefnyddio'r dechnoleg er mwyn bwrw ymlaen gyda'i gwasanaeth gwerthfawr i'r Gymraeg.

Cysylltwch gyda mi, os ydych yn rhan o fudiad sy'n gweithio trwy'r Gymraeg ac fe allwn gynnig hyfforddiant digidol am ddim ynghyd â chymorth a chefnogaeth. deian.apRhisiart@wales.coop

**Apêl Wcráin**
Dydd Gwener, Mawrth 25ain cawsom brynhawn gwych yn codi arian at Apêl Wcráin. Ar ôl gwaith trafod gyda'r disgyblion, daeth syniad bendigedig i'r gweill - roeddent eisiau codi arian ar gyfer y ffoaduriaid. Dawnsathon, cacennau a raffl - beth well ar brynhawn dydd Gwener? Hoffem ddiolch i bawb am noddi'r plant i ddawnsio am ddwy awr a hefyd diolch i bawb am ein cefnogi ni yn yr ymgyrch. Roedd hi'n brynhawn llwyddiannus iawn!

**Prosiect Creadigol**
Dros y misoedd diwethaf mae plant y Cyfnod Sylfaen wedi bod yn brysur yn datblygu eu sgiliau creadigol yn yr ardal tu allan. Rydym wedi bod yn lwcus iawn o gael Gai Toms ac Eirian Muse yma yn wythnosol i rannu eu gwybodaeth ac i arwain ni drwy'r cynllun creadigol. Rydym wedi cael andros o hwyl yn canu, gwehyddu, dawnsio, cyfansoddi a chreu - sgiliau i'w cofio am byth, rydym yn siŵr! Cawsom barti Tylwyth Teg i ddathlu ein llwyddiant. Diolch i'r ddau ohonoch am brofiad gwych.






**Hyfforddiant Beicio Blwyddyn 6**
Braf oedd cael croesawu Ifan a Paul yn ôl i Ysgol Rhiwlas am y tro cyntaf ers cyn Covid i gynnal hyfforddiant beicio i flwyddyn 6. Dau ddiwrnod o ddysgu sgiliau hollbwysig megis sut i fod yn ofalus ar y ffyrdd. Rydym yn falch bod pob disgybl ym mlwyddyn 6 wedi elwa o'r hyfforddiant ac wedi mwynhau'n arw. Diolch unwaith eto i'r ddau.

# Y Dyffryn Gwyrdd

# Plannu a Thyfu

**DOWCH YN ÔL AT EICH GERDDI!**



### Gardd Ffrancon

Dyma'r ail flwyddyn yn yr ardd gymunedol newydd, Gardd Ffrancon, yn ymyl y ganolfan hamdden ac mewn partneriaeth â Chwmni Byw'n Iach. A hithau'n ardd gymunedol mor newydd, mae Partneriaeth Ogwen eisoes wedi derbyn gwobr gan CLAS Cymru am yr egni mae'n nhw wedi rhoi i mewn wrth ddiogelu tir ar y cyd efo Byw yn Iach, gosod gwelau uchel, cytiau a thŷ gwydr, biniau compost a dŵr, ac wrth sefydlu grŵp garddio rheolaidd. Erbyn hyn, rydym yn griw bach sy'n cyfarfod bob bore dydd Mawrth 11-1, ac mae croeso i unrhyw un ymuno, unwaith neu ragor! Rydym yn cynnig cyfle am ymarfer corff ysgafn a gwahanol i rai sydd ddim yn ffansïo'r gampfa, a hefyd mae'r ardd yn lle braf i fod ynddi a meddwl am ddim byd arall am sbel! Ein diwrnod plannu a hau mawr nesaf yw 19 Ebrill 2022. Dowch draw i gymryd rhan, neu i edrych be sy'n digwydd! A nos Fawrth 26 Ebrill, byddwn yn cynnal ein sesiwn sgwrs a garddio cyntaf i ddysgwyr Cymraeg a siaradwyr rhugl ddod a gwneud rhywbeth efo'i gilydd, 5:30-7:00.




(arwydd mynediad i'r ardd gymunedol gan Elen Williams)

### Rhandiroedd

Erbyn hyn, mae 8 o bobl wedi dechrau gweithio eu plot eu hunain, ac os ewch chi heibio ryw bryd, mi welwch be sy'n tyfu yna yn barod – blodau, perlysiau, ac ambell i blanhigyn ffa, garlleg a llysiau eraill. Oes gynnoch chi awydd plannu rhywbeth? Mae'r plotiau yn fach ar bwrpas – dim gormod o waith, ond eto digon o le i blannu amrywiaeth o bethau. Ac mae 'na le i fwy ohonyn nhw, felly mwy o gymdogion, cyfnewid syniadau a phlanhigion, a chyfle am sgwrs! Mae na ddigon o randiroedd gwag ar ôl, felly rŵan ydi'r amser i gysylltu, er mwyn cael dechrau wrth i'r tywydd ddechrau cynhesu! Maen nhw'n llai na £15 y flwyddyn.



### Natur yn y gymuned

Rydym hefyd yn dal i weithio gydag ysgolion ac eraill yn y Dyffryn i gynyddu llefydd efo blodau a chyfleoedd tyfu bwyd. Rydym wedi plannu coed cynhenid, coed ffrwythau a hadau blodau ar gyrion caeau Clwb Rygbi Bethesda er mwyn gwella bioamrywiaeth yno. Rydym hefyd wedi rhoi hadau blodau gwyllt mewn nifer o stadau tai yn y Dyffryn ac yn dal i weithio efo Adra mewn llefydd eraill. Yn fuan, gobeithio, bydd y blodau yn codi gwên trigolion!

Rydym hefyd yn cydweithio efo garddwyr ifanc yr ardal i redeg clybiau garddio yn yr ysgolion, fel bod plant (ac athrawon!) yn dysgu sgiliau plannu a garddio fydd yn ddefnyddiol iddynt ar hyd eu hoes. Mae Mike o Bwyd am Byth wedi gwneud dechrau gwych dros y 18 mis diwethaf yn ysgolion Abercaseg, Llanllechid a Dyffryn Ogwen, a gobeithiwn y bydd y clybiau garddio yn parhau.

(Plant ysgol Llanllechid yn helpu creu gardd fach ym Maes Bleddyn)





### Beics Ogwen

Cynhaliwyd dwy sesiwn beicio hygyrch llwyddianus ar y cyd ag Antur Waunfawr yng Nglwb Rygbi Bethesda yn ystod mis Mawrth – un mewn glaw trwm, a'r llall mewn heulwen bendigedig! Cafwyd cyfle i drio gwahanol mathau o feiciau – rhai 3 a 4 olwyn yn ogystal a beics 'arferol' gyda modur trydan wedi'u rertro-osod. Bydd mwy o ddigwyddiadau'n dilyn dros yr wythnosau a'r misoedd nesaf.

### Pantri Pesda

Mae'r Pantri wedi ei hen sefydlu bellach yn 57 Stryd Fawr, cartref Cadwyn Ogwen gynt. Braf iawn oedd gweld sylw i waith y Pantri a gwaith Cadwyn Ogwen fel rhan o ymateb y Bartneriaeth i'r pandemig ar newyddion S4C a Cymru Fyw'n ddiweddar. Mae'r sesiynau rhannu bwyd yn parhau bob nos Sul am 5.30pm a nos Fawrth am 7pm ac ar agor i bawb – dewch draw i'n cynorthwyo'i leihau gwastraff bwyd a chael tamad blasus 'run pryd!

Rydym hefyd yn darparu pecynnau bwyd misol i unrhyw un sydd eu hangen. Cysylltwch i drefnu.

### Gweithgareddau a Gwirfoddoli

Mae mis Mawrth wedi bod yn un prysur o ran plannu coed, efo dros 1000 o goed wedi'u plannu ar draws Bethesda. Plannwyd y rhan fwyaf o'r rhain ar Y Wern yn y Gerlan dros ddau Ddydd Sadwrn heulog, efo cefnogaeth tua 20 o wirfoddolwyr. Rydym wedi dechrau cyfnewid chwyn am y coed brodorol a'r gobaith yw y bydd plant heddiw yn mwynhau efo'u teuluoedd ei hunan yn y dyfodol. A sôn am blant, byddwn yn plannu tua 200 o goed yn ysgolion cynradd Llanllechid, Tregarth a Bodfeurig cyn bo hir efo help mawr gan y plant eu hunain. Cawn weld pwy sydd efo'r bysedd gwyrddaf. Does 'na ddim byd gwell na gwers ymarferol yn y mwd!

Gyda'r gwanwyn ar y ffordd mae sawl gweithgaredd dan sylw a llawer o'r rheini wedi'u trefnu gan Harri. Byddwn yn hysbysebu cyfleodd Ebrill yn lleol ac ar y cyfryngau cymdeithasol. Gallwch hefyd alw'i fewn yn swyddfeydd y Bartneriaeth ar Stryd fawr Bethesda neu yn y Pantri yn 57 Stryd Fawr.

*Am fwy o fanylion am waith y Dyffryn Gwyrdd, cysylltwch efo ni; menna@ogwen.org // 07394906036*

## Pentir

**Cynrig a Carys Hughes,**
Rallt Uchaf, Pentir, LL57 4YB
(01248 601318)
carys16@hotmail.com

### 'Ynys Alys'

Dymunwn bob llwyddiant i Casi Wyn a Chwmni Frân Wen a'r cynhyrchiad 'Ynys Alys' sydd ar daith rhwng 17 Mawrth a 9 Ebrill. Mae theatr, cerddoriaeth bop a rap yn gwrthdaro yn y cynhyrchiad Cymraeg hwn sy'n dilyn merch ifanc wrth iddi fynd ati i chwilio ei hannibyniaeth.

Llongyfarchiadau hefyd i Marteg Dafydd ar gael ei dewis i Theatr Genedlaethol Ieuenctid Cymru fydd ar daith fis Medi.

### Rhwyfo a rhedeg

Pob lwc i Cedol Dafydd sy'n cystadlu efo tîm rhwyfo Prifysgol Caerfaddon yn ras 'Head of the River Race' ar afon Tafwys yn Llundain

Dymuniadau gorau i Wesyn Dafydd fydd yn cymryd rhan yn ras hanner marathon Caerdydd.


**L. Sturrs**
**a'i feibion**
sefydlwyd yn 1965
ADEILADWYR
Hen Iard Stesion,
Ffordd y Stesion, Bethesda
Ffôn: 600953
lsturrs@googlemail.com


## PLAID CYMRU DYFFRYN OGWEN

Mae'n bleser cyflwyno ein hymgeiswyr ar gyfer yr etholiadau lleol a gynhelir ar y pumed o Fai.

Ein hymgeisydd newydd, ifanc a medrus dros **Dregarth a Mynydd Llandygái** yw **Beca Roberts**. Wedi ei geni a'i magu yn Nhregarth, mae hi'n adnabod yr ardal a'i phobl yn dda iawn. Bu'n gweithio i Bartneriaeth Ogwen ac mae'n frwd iawn dros hyrwyddo gweithredu cymunedol.

**Paul Rowlinson** yw ein hymgeisydd ar gyfer ward newydd **Rachub** ac mae'n byw yn y ward ers 22 mlynedd. Fel cynghorydd, mae wedi gweithio'n ddiflino ar faterion fel tai, llifogydd, ffyrdd a gwastraff. Mae'n helpu i redeg sawl mudiad lleol, gan gynnwys Ynni Ogwen a Balchder Bro.

**Rheinallt Puw** sy'n ymgeisio am sedd ward newydd **Canol Bethesda**. Mae'n angerddol dros sicrhau tegwch i deuluoedd ac unigolion ac mae'n falch bod ei waith yn pwyso am dai yn ei ward wedi dwyn ffrwyth. Bydd yn parhau i roi anghenion ei gymuned yn gyntaf.

Un o Fraichmelyn yw **Einir Williams**, ein hymgeisydd dawnus yn ward newydd **Gerlan**. Mae hi'n aelod ar Gyngor Cymuned Bethesda ers pum mlynedd gan gynnwys tair blynedd fel Cadeirydd, yn arwain y Cyngor yn effeithiol. Mae ei phrofiad yn ased mawr wrth ymgeisio fel cynghorydd sir.


Mae **Dafydd Meurig** yn gynghorydd sir hynod brofiadol yn ward **Arllechwedd**, ac mae'n aelod o gabinet Cyngor Gwynedd. Mae'n falch o'r gwaith atal llifogydd sydd wedi digwydd yn ei ward, ac mae'n angerddol am gynorthwyo pobl sy'n wynebu heriau. Sefydlodd Dafydd grwpiau cymorth Covid-19 i helpu'r rhai anghenus yn ystod y pandemig. Yn fwy diweddar mae wedi sicrhau arian Grant Oed Gyfeillgar gan Gyngor Gwynedd i hyrwyddo digwyddiadau cymdeithasol ar gyfer pobl hŷn a'u hannog i ail afael mewn bywyd cymdeithasol mewn modd diogel. Defnyddir y grant i gynnal cyfres o foreau coffi yn mhentref Tal-y-bont.

Yn ogystal, bydd **Iwan Hywel, Mair Owen Pierce, Lowri F Jones, Dafydd Roberts, Huw P Jones, Dafydd Owen, Siân Beidas, Mary Hayes, Dyfrig Jones, Einir Williams, Linda Brown, Bleddyn Williams, Ann Williams, Mary Jones, Neville Hughes, Catrin Wager** a **Gwilym Owen** ymhlith ein hymgeiswyr ar gyfer cynghorau cymuned y Dyffryn.

# Llandygái

**Iona Wyn Jones**, Dyma Fo, 16 Pentref, Llandygái, Bangor LL57 4HU (01248 354280)

**Colled**
Trist oedd gennym glywed am golli Mr Jim Hughes, Yr Elen, Bryn, yn 96 oed. Annwyl ŵr Beryl a thad i Wendi, Phil ac Ian.a Thaid hoffus i Katy, Sali, John. Hannah, Tom. Jorja a Josh. Roedd yn frodor o Langefni ac yn fab William John a Hannah Hughes. Roedd Jim wedi dechrau arni fel bachgen Telegram cyn gwasanaethu yn y Llynges ac ar yr 'Arctic Convoys' ac yna dychwelyd i'r Swyddfa Bost fel Postfeistr yn Llangefni.
Roedd y gwasanaeth yn y Gadeirlan a'r claddu ym mynwent Llandygai. Rydym yn cydymdeimlo gyda'r teulu yn eu colled.



**EGLWYS SANT TEGAI, LLANDYGAI**
**Cyfarchion y Pasg**
Dymuna cynulleidfa St Tegai holl fendithion y Pasg a gwyliau hapus i bawb yn yr ardal.

**Llongyfarchiadau i'r Clochyddion**
Mae tîm clochyddion St Tegai wedi creu cyfansoddiad canu clychau sydd wedi ei gydnabod a'i dderbyn i'r bas-data proffesiynol Llyfrgell Cyfansoddiadau CCBR. Enw'r dull yw "Llandegai Bob Doubles". Bydd cyfle nawr i glochyddion ar draws y byd ganu'r cyfansoddiad newydd yma. Llongyfarchiadau i Martin Brown a thîm brwdfrydig y clochdŷ am roi ein heglwys ar y map rhyngwladol!

**Penblwydd Hapus!**
Estynnwn gyfarchion penblwydd calonnog iawn i Robin Jones o'r pentref wrth iddo ddathlu 98 mlwydd oed. Canwyd clychau'r eglwys brynhawn Sul, Mawrth 20fed, fel anrheg o'r gynulleidfa i nodi'r achlysur llawen. Diolch i Martin Brown am drefnu. Gobeithio eich bod wedi mwynhau y te bach a drefnwyd gan drigolion y pentref, Robin!

**Profedigaeth**
Cydymdeimlwn â theulu'r diweddar James (Jim) Hughes o Bryn, Llandygai. Roedd y teulu yn aelodau selog yn St Tegai am flynyddoedd cyn iddynt symud i'r Gadeirlan. Bydd rhoddion er cof am Jim yn mynd at Gronfa Atgyweirio St Tegai fel cydnabyddiaeth o'r berthynas glos gyda'r eglwys. Diolch i'r teulu.

**Trefniadau Pasg St Tegai yn ansicr**
Ar ôl hirymaros mae yna weithwyr yn yr eglwys ond, wrth i ni ysgrifennu'r adroddiad yma i'r Llais, nid yw yn glir os fydd yr eglwys ar agor ar gyfer y Pasg. Mae cyflwr yr eglwys wedi dirywio yn arw yn ystod y cyfnod clo felly bydd angen gwaith sylweddol i gael yr eglwys yn barod ar gyfer cynulleidfa. Mae iechyd a diogelwch yn hollbwysig. Cadwch olwg allan am ddatganiad yn nes at y Pasg! Diolch i bawb o'r gynulleidfa sydd wedi parhau i yrru arian casgliad yn selog ac i gefnogwyr ffyddlon eraill o'r pentref ac o'r ardal am roddion hael i Gronfa Atgyweiro yr eglwys . Heb y gefnogaeth yma yn ystod cyfnod y Clo, heb wasanaethau ers Mawrth 2020 ac heb offeiriad, buasai dyfodol Eglwys St Tegai yn un llwm iawn. Diolch o galon i'n holl gefnogwyr.
Yn y cyfamser, mae cyfle i'r gynulleidfa addoli yn yr eglwysi canlynol ac yn y Gadeirlan ym Mangor; Eglwys Crist Glanogwen, Eglwys Santes Fair Mynydd Llandegai, Eglwys St Cedol Pentir, Eglwys St Cross Talybont, Eglwys Santes Fair Tregarth. Rydym yn ffodus i gael cyfeillion sydd yn ein gwahodd i addoli ar y cyd. Gobeithiwn ailagor yn rhannol ar ddiwedd mis Ebrill.

**Casgliad y Pasg 2022**
Derbynnir yn ddiolchgar iawn unrhyw gyfraniad ariannol ar gyfer y Pasg gan swyddogion yr eglwys mewn arian parod (drwy law) ym mlwch postio, mewn siec drwy'r post (yn daladwy i *Eglwys Llandegai Church*) neu drosglwyddiad banc (Cyfrif yr Eglwys: 30-90-43 00098435. Os gwelwch yn dda, gadewch i ni wybod os ydych yn gwneud trosglwyddiad banc). Buasai'r Trysorydd yn gwerthfawrogi pe buasech yn cynnwys eich enw, cyfeiriad a chôd post llawn. Mae cyfraniad Cymorth Rhodd yn codi gwerth eich arian o 25%. Dyma gyfeiriadau y swyddogion:

- Ann E Williams, Warden y Ficer, Llwyn Coed, 9 Llwyn Bleddyn, Llanllechid, Bangor Gwynedd LL57 3EF *01248600719 annacoed@hotmail.com*
- Edmond Douglas Pennant, Warden y Bobl a Thrysorydd, Drws Melyn Lodge, Pentref Llandegai, Bangor, Bangor, Gwynedd LL57 4HU
- Nerys Jones, Ysgrifennydd a Sacristan, 2 Bryn Cottages, Llandegai, Bangor, Gwynedd. LL57 4LD *01248354369 nessie211@btinternet.com*

**Manylion Cyswllt**
Tra bod eglwysi Bro Ogwen yn disgwyl am apwyntiad Ficer newydd, rhaid cysylltu â'r Deon Gwlad, Parchedig Ganon Tracy Jones, tracyjones@churchinwales.org.uk, neu 01248 361 876 ynglŷn ag unrhyw fater yn ymwneud â'r eglwys.

# Coedyn o'r Lôn Goed i'w ddefnyddio i greu cadair Eisteddfod Llŷn ac Eifionydd

Mae'r Eisteddfod Genedlaethol wedi cyhoeddi briff ar gyfer cynllunio a chreu Cadair Eisteddfod Genedlaethol Llŷn ac Eifionydd. Cyflwynir y Gadair gan deulu'r diweddar Dafydd Orwig, un a fu mor gadarn ei ymroddiad i'w gymuned leol yng Ngwynedd, ac a fagwyd am ran helaeth o'i blentyndod cynnar yn Iwerddon.
Cafodd y cyfnod yma y tu allan i Gymru ddylanwad ar yr addysgwr ac arloeswr amlwg drwy'i oes, ac mae'r teulu'n awyddus i ddathlu'r cysylltiad yma rhwng Cymru ac Iwerddon wrth gyhoeddi manylion y briff ar gyfer cynllunio a chreu'r Gadair.
Wrth gofio a dathlu bywyd a chyfraniad arbennig Dafydd Orwig, mae'r teulu hefyd yn awyddus i sicrhau fod gwreiddiau'r Gadair yn llythrennol ym mro'r Eisteddfod yn Llŷn ac Eifionydd. Ac felly, mae'r coedyn ar gyfer y Gadair eisoes wedi'i ddewis, sef un o goed derw gwreiddiol y Lôn Goed, a blannwyd tua dau gan mlynedd yn ôl, ac a anfarwolwyd gan gerdd R Williams Parry, *Eifionydd*.
Disgynnodd y coedyn mewn storm tua saith mlynedd yn ôl, ac yn ôl Huw Orwig ar ran y teulu, "Rydyn ni'n ddiolchgar iawn i berchnogion fferm Tyddyn Heilyn, Chwilog, Mr a Mrs Williams, am gynnig y pren i gynllunydd y Gadair. Mae'r ffaith ein bod ni'n cael y cyfle i wneud defnydd newydd

# Talybont

**Neville Hughes**, 14 Pant, Bethesda (600853)
**Barbara Jones**, 1 Dol Helyg, Talybont (353500)

**Cartref newydd**

Dymunwn bob bendith i Leanne, merch Sandra a Keith, 13 Dolhelyg, fydd yn symud efo'i merch fach, Alina, i gartref newydd ger y traeth ym Mhenmaenmawr. Bydd Alina wrth ei bodd yn cael chwarae ar y tywod a throchi ei thraed yn y dŵr, a chaiff Nain a Taid Dolhelyg ymlacio ar lan y môr pan ddaw'r Haf.

**Cydymdeimlo**

Mae'r mis diwethaf, fel y rhai cynt, wedi gweld mwy nag un teulu o'r pentref mewn profedigaeth.

Cydymdeimlwn â theulu 13 Cae Gwigin. Bu farw tad Ian, Jim Hughes, 'Yr Elen', Bryn, Llandygai ar Fawrth 14eg. Yr oedd yn 96 oed. Anfonwn ein cydymdeimlad dwysaf at Beryl, ei weddw. Bu'r ddau yn briod am dros drigain mlynedd, ac wedi gofalu'n dyner am ei gilydd drwy gyfnodau o waeledd mawr.

Mae Christine Cahalan, 'Hartwell Cottage', wedi colli ei thad hithau yn yr Alban. Yr oedd yntau mewn gwth o oedran ond, yn ôl pob sôn, wedi llwyddo i gadw ei annibyniaeth hyd yn gymharol ddiweddar. Derbynniwch gydymdeimlad pawb ohonom, Christine, yn eich colled fawr.

Estynnwn gydymdeimlad dwys i Marilyn, Alun, Katie a Ben, 78 Bro Emrys. Bu farw Richard Unsted, o Gyffordd Llandudno, ar Fawrth 23ain. Roedd yn frawd i Marilyn ac yn nai i'r diweddar annwyl Colin Unsted, 3 Dolhelyg. Cydymdeimlwn â'r cysylltiadau teuluol i gyd ar adeg mor drist yn eu hanes.

Daeth profedigaeth lem i ran teulu 13 Dolhelyg unwaith eto. Bu farw Sarah, merch i frawd Keith, yn frawychus o sydyn yn ei chartref ym Maesgeirchen, a hithau ond yn 39 mlwydd oed. Estynnwn gydymdeimlad dwysaf i'r teulu oll yn eu galar.

Cawsom oll ein dychryn wrth glywed y newyddion trist bod Bill Morrell, a ymgartrefodd yn 4 Dolhelyg, wedi marw yn Ysbyty Gwynedd. Oherwydd bod y teulu i gyd yn byw i ffwrdd, ni chawsom wybod am y trefniadau i ffarwelio â'u tad.

**Helpu Ffoaduriaid Wcráin**

Cynhaliwyd Noson Goffi eithriadol o lwyddiannus yn Festri Bethlehem ar nos Fawrth, 29 Mawrth. Trefnwyd y noson gan aelodau Capel Bethlehem gyda'r bwriad o godi arian i gynorthwyo pobol a phlant Wcráin sydd wedi gorfod ffoi o'u cartrefi o ganlyniad i'r rhyfel erchyll yn eu gwlad.

Mae'n amlwg fod y sefyllfa druenus yn yr Wcráin wedi cyffwrdd â chalonnau pawb, yn cynnwys pobol ardal Talybont, Llandygai a'r cylch. 'Roedd y rhoddion ariannol a gafwyd yn ystod y bythefnos cyn agor drysau'r Noson Goffi yn dangos hyn yn glir, oherwydd fe dderbyniwyd y swm anrhydeddus o £838.00 gan drigolion yr ardal. Yn ychwanegol at hyn derbyniwyd llawer iawn o nwyddau i'w gwerthu yn ogystal â gwobrau ar gyfer y raffl. Roedd cyfanswm yr elw yn £2,100. Diolch yn fawr i bawb am eu haelioni!

**Brysiwch wella**

Mae'n dda gennym ddweud bod Liz, 6 Lôn Ddŵr, wedi gwella'n dda erbyn hyn. Er hynny, pwyll biau hi, Liz; traed i fyny a gadael i'r teulu mawr sydd gen ti ofalu amdanat. Fydd hynny ddim yn anodd; maen nhw i gyd yn meddwl y byd ohonot.

Roedd yn ddrwg iawn gennym glywed bod Dafydd, gŵr Sally, 3 Min Ogwen, yn Ysbyty Gwynedd ar hyn o bryd. Mae Dafydd yn aros yn Fairways (Sant Tysilio gynt) ers rhai misoedd. Mae cyfyngiadau Covid wedi cadw pawb ar wahân, a chymaint o bethau wedi digwydd yn y gymdogaeth nad ydan ni'n ymwybodol ohonynt. Siawns na ddaw pethau'n well gyda hyn.

Mae'n debyg y bydd Ollie, 31 Cae Gwigin, ar ei faglau am gryn dipyn o amser eto. Pob lwc i ti, Ollie. Defnyddia'r amser segur i astudio rheolau pêl-droed, iti gael bod yn Ddyfarnwr ryw ddiwrnod.

Deallwn i Amanda Redfern Williams gael codwm cas tra'n cerdded ger y Clwb Rygbi yr wythnos o'r blaen. Gobeithio dy fod yn teimlo'n well o lawer erbyn hyn, Amanda.

Cofiwn yn annwyl iawn at bawb sydd ddim yn teimlo'n dda ar hyn o bryd, neu mewn cyfyng-gyngor, am ba reswm bynnag.

**Capel Bethlehem**
*Oedfaon (am 2 o'r gloch)*

**Ebrill**
17 Ebrill (Sul y Pasg): Mr. D. Glyn Williams, Llandudno.
24 Ebrill: Y Gweinidog.

**Mai**
1 Mai: Parchg. Dafydd Job, Bangor.
8 Mai: Y Gweinidog
15 Mai: Trefniant lleol.
22 Mai: Y Gweinidog.
29 Mai: Mr.Dafydd Iwan.

Croeso cynnes i bawb.

**Edrych ymlaen**

Mae tywydd braf y mis diwethaf wedi bod yn help garw i godi'n calonnau wrth i gyfnod gwaetha'r pandemig ddod i ben. Mae natur ar ei gorau, a'r wlad o'n cwmpas mor hardd.

Mae'r plant mawr a bach allan yn chwarae yn yr haul; y babis yn tyfu ac yn altro bob dydd, a rhai o'n pobl ifainc yn edrych ymlaen at ddechrau cyfnod newydd yn eu bywydau.

Dymunwn bob llwyddiant iddyn nhw i gyd.

'Ddowch chi byth o hyd i ardal harddach na'n Dyffryn ni, na phobl gleniach i fyw yn eu plith. Cyfrwn ein bendithion!

**Clwb Coffi Talybont**

Yn dilyn dau gyfarfod llwyddiannus cyntaf y Clwb a gynhaliwyd yn ystod mis Mawrth, a phawb wedi mwynhau eu hunain, mae'n bleser cael cyhoeddi amserlen y Clwb am y misoedd nesaf:

Ebrill 4 a 25; Mai 9 a 23; Mehefin 6 a 20; Gorffennaf 4 ac 18. (Boreau Llun, 10.30 – 12.00). Dewch draw i Festri Bethlehem am banad a sgwrs a bisgedan. Croeso cynnes.

Gyda llaw, 'does dim tâl mynediad, diolch i'r grant a gafwyd gan Gyngor Gwynedd, ac i'r Cynghorydd Dafydd Meurig am drefnu'r holl beth.

---

ac amgen o goedyn oedd wedi'i golli mewn storm yn apelio'n arw atom ni fel teulu.

"Gyda chymaint o sôn am stormydd yn creu difrod cynyddol i'n cynefinoedd dros y blynyddoedd diwethaf, mae'n braf meddwl ein bod ni'n gallu defnyddio coedyn a fu'n rhan o lenyddiaeth ein gwlad yng ngherdd R Williams Parry er mwyn anrhydeddu'r bardd buddugol ar lwyfan y Pafiliwn ym mis Awst 2023."



Yn ogystal â defnyddio coedyn eiconig o'r Lôn Goed, mae'r teulu hefyd yn awyddus i weld llechen neu lechi fel rhan o gynllun y Gadair, o gofio mai un o blant Bro'r Llechi oedd Dafydd Orwig. Mae gan y teulu ddyhead hefyd i weld Cadair a fydd yn y pen draw ar waith mewn tŷ, fel rhan o ddodrefn arferol y cartref, ond Cadair a fydd hefyd yn edrych yn drawiadol ar lwyfan eang y Brifwyl, gan adlewyrchu urddas y seremonïau drwy gydol yr wythnos.

Mae'r briff llawn ar gyfer Cadair Eisteddfod Genedlaethol Llŷn ac Eifionydd ar gael i'w ddarllen ar wefan yr Eisteddfod, www.eisteddfod.cymru/2023-briff-cadair, ac mae croeso i unrhyw un sydd â diddordeb gysylltu gyda Huw Orwig ar huworwig@gmail.com am ragor o wybodaeth. Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno cais yw 1 Mehefin 2022.

Cynhelir Eisteddfod Genedlaethol Llŷn ac Eifionydd ar gyrion Boduan o 5-12 Awst 2023. Am ragor o wybodaeth ewch ar-lein.

# YSGOL DYFFRYN OGWEN

## ADRAN Y GYMRAEG

**Taith Un Nos Ola Leuad**

Ar yr ail o Fawrth cefais i, a gweddill disgyblion blwyddyn 13 Adran y Gymraeg y cyfle i fynd ar daith arbennig o amgylch ein hardal ni i gael gweld prif leoliadau'r nofel Un Nos Ola Leuad. Ar ran pawb, hoffwn ddiolch o galon i Mr Ieuan Wyn am ei arweiniad arbennig. Daeth y daith a'r nofel yn fyw i ni, rydym wedi'n hysbrydoli'n barod am yr arholiad!

*Elin Alaw Owen, Blwyddyn 13*



## Yr Ysgwrn

Ddydd Gwener, Mawrth 4ydd, aeth criw o ddisgyblion blwyddyn 9 ar daith i gartref y bardd Hedd Wyn. Ar ôl bron i ddwy flynedd heb ymweliadau oherwydd y pandemig, roedd y syniad o gael gwibdaith mewn bws i Drawsfynydd yn rheswm dros dipyn go lew o gyffro!

Roedd rhan gyntaf y daith yn cynnwys cyflwyniad am Hedd Wyn, a'r ail ran yn daith o amgylch y galeri a'r Ysgwrn ei hun. Y peth mwyaf cofiadwy, wrth gwrs, oedd cael gweld y Gadair Ddu ei hun, a sylweddoli fod 11 person yn byw yn y ffermdy bach! Roedd o yn ddiwrnod cofiadwy, a diolch i Mrs Thomas am drefnu. Lle awn ni nesaf, tybed?

*Mari Roberts, Blwyddyn 9*


SIÂN GWENLLIAN
AELOD O'R SENEDD DROS ARFON
CYSYLLTWCH:
sian.gwenllian@senedd.cymru
01286 672 076
70 Stryd Fawr, Bangor
Senedd Cymru
Welsh Parliament

Talwyd costau'r cyhoeddiad hwn gan
Gomisiwn y Senedd o gronfeydd cyhoeddus


**Ymweliad â Pontio**

Braf oedd i griw o flynyddoedd 11,12 ac 13 gael ymweld a theatr Pontio i weld cynhyrchiad o Ynys Alys gan Gwmni y Frân Wen. Yn sicr, roedd yn gynhyrchiad gwerth ei weld gyda cherddoriaeth arbennig a chynnwys oedd yn annog trafodaeth.

**Diwrnod y Llyfr**

Er mwyn dathlu Diwrnod y Llyfr, bu i Adran y Gymraeg roi'r cyfle i ni fod yn awduron! Cawsom ysgrifennu llyfr ein hunain er mwyn mynd i Ysgol Llanllechid (yn y glaw!) i ddarllen stori i blant bach. Ysgrifennais i stori o'r enw "Swyn yn Dwyn" yn sôn am hogan fach o'r enw Swyn oedd yn dwyn pethau gan ei theulu, ac yn y diwedd cafodd fai ar gam achos y lleidr go iawn oedd ei chwaer! Roedd disgyblion y cyfnod sylfaen yn Llanllechid i gyd wedi gwisgo fel eu hoff gymeriad o lyfr, ac yn awyddus i glywed ein straeon. Rydym yn hynod ddiolchgar i Ysgol Llanllechid am adael i ni ddod i'r ysgol a chael bod yn greadigol.


*Lloer Gwilym, Blwyddyn 8*

## ADRAN HANES

Cefais i, George a Cerys y profiad o fod yn rhan o'r cwrs ar-lein 'Lessons from Auschwitz' y mis yma. Roedd y cwrs yn gyfres o dair sesiwn fyw dros Zoom ynghyd â modiwlau dysgu'n annibynnol. Roeddem yn cyfarfod unwaith yr wythnos gyda disgyblion eraill ar draws Cymru a gydag addysgwyr o Ymddiriedolaeth Addysg yr Holocost. Cawsom y cyfle i ddatblygu a dwysáu ein dealltwriaeth o'r Holocost trwy brofiad rhithwir ar ein ffonau symudol o fod yn Auschwitz-Birkenau, a'r profiad anhygoel o wrando ar stori Eva Clarke, gan Eva ei hun, gwraig a anwyd yn un o'r gwersylloedd. Yn dilyn cyflawni'r cwrs, rydym nawr yn falch o fod yn lysgenhadon ar gyfer Ymddiriedolaeth Addysg yr Holocost. Rydym wedi defnyddio yr hyn â ddysgwyd i greu arddangosfa ar wal yn yr ysgol wrth ein ystafell Hanes, a byddwn yn addysgu blwyddyn 9 maes o law yn y gwasanaeth boreol. Oherwydd mesurau Covid-19, roedd rhaid i'r cwrs gael ei gynnal ar lein, felly ni chawsom y cyfle i gyfarfod Eva Clarke yn fyw, nac ychwaith cael y cyfle i fynd i Auschwitz-Birkenau am y diwrnod. Er hyn, rydym wedi mwynhau y profiad ac yn ei werthfawrogi'n arw. Diolch i Ysgol Dyffryn Ogwen ac i'r Adran Hanes am sicrhau profiad mor unigryw i ni.

*Elin Lewis, Blwyddyn 12*

Mae Cerys Elen ac Elin Lewis blwyddyn 12 wedi creu arddangosfa er mwyn rhannu gwybodaeth am yr Holocaust gyda'u cyfoedion.




Dilynwch Llais Ogwen ar Trydar **@Llais_Ogwen**

**Llyfrgell Bethesda**
Rapio fu hanes criw medrus blwyddyn 7 yn Llyfrgell Bethesda ddechrau mis Mawrth. Diolch i Mared Llywelyn a Mari Elen Jones am gynnal y gweithdy podlediad gyda'n disgyblion. Edrychwn ymlaen at glywed mwy ganddynt.

**Ymwelwyr a Chodi Arian ar gyfer Wcráin**




Diolch i PC Owain Edwards am ddod i roi gwasanaeth flynyddoedd 7 i 9 a hithau'n wythnos codi ymwybyddiaeth 'County Lines'.

Diolch o galon i Mr Dafydd Beech am gynnal gwasanaeth arbennig i egluro gwaith y groes goch yn gyffredinol ac yn Wcráin. Mae disgyblion blynyddoedd 7 ac 8 wedi gwella eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth cyn codi dros £550 o arian at yr achos yn Wcráin.

Gwisgodd y disgyblion mewn melyn a glas gan dalu am y fraint, bu gweithdai dylunio gemau cyfrifiadurol, gwerthu hadau blodau haul, twrnament pêl-droed a gwerthu cacennau i godi'r arian. Diolch o galon i bawb am eich haelioni.

**Cyngor Ysgol**
Cafodd y Cyngor Ysgol gyfle i gymryd rhan mewn gweithdai gyda Chymwysterau Cymru er mwyn mynegi barn sy'n gymorth i lywio cymwysterau'r dyfodol. Bydd angen cymwysterau newydd trwy Gymru wrth gwrs, i griw fydd yn gorffen TGAU yn 2027, arloeswyr Cwricwlwm i Gymru wrth gwrs!



**'Class Charts'**
Daeth criw o flwyddyn 7 i'r brig yng nghystadleuaeth 'Class Charts' y tymor diwethaf. Eu dewis nhw oedd y wobr o goginio crempogau, cafwyd brynhawn llawn hwyl, da iawn chi!





**Adran Addysg Gorfforol**
Genethod blwyddyn 7 wedi cael gêm bêl-droed gyffrous yn erbyn blwyddyn 7 ac 8 Ysgol Tryfan, pawb wedi chwarae'n wych ond colli o 4-3 fu eu hanes yn y diwedd. Sgoriwyd y goliau gan Cari Williams, Gwenno Beech ac Erin Owen.

Ers Mis Ionawr mae genethod blwyddyn 8 a 9 wedi bod yn ymarfer bob dydd iau yn ddi-ffael ac o ganlyniad i hyn mae criw o enethod wedi cael eu dewis i gynrychioli Ysgol Dyffryn Ogwen mewn twrnament yn Y Bala. Ennill dwy a cholli tair oedd eu hanes ond ymdrech arwrol gan y merched, mae dyfodol rygbi merched Pesda yn edrych yn ddisglair.

Bu nifer o fechgyn blwyddyn 11 yn ymarfer yn galed efo carfannau RGC dros yr wythnosau diwethaf. YYn ddiweddar cafodd Iestyn Tomlinson ac Osian Moore eu dewis i chwarae i dîm dan 16 RGC yn erbyn Wasps. Cafodd Jac Wyn Roberts ei ddewis i chwarae dros dîm dan 17 RGC yn erbyn Caerwrangon (Worcester).'

Aeth criw o ferched blwyddyn 11 a'r 6ed dosbarth i gynhadledd #felmerch yr Urdd yng Nghaerdydd yn ddiweddar. Rodd pob un wedi cael profiad gwych.

# Côr y Penrhyn
## gyda Derfel Roberts

**Cyfarfod Blynyddol**
Bydd cyfarfod blynyddol y côr yn cael ei gynnal y 9fed o Fai pryd y bydd ethol swyddogion a chyflwyno tlysau i'r aelodau a fu'n canu efo'r côr am 50 mlynedd yn digwydd.

## Cymeriadau'r Côr

**Cyfres yw hon sy'n rhoi ychydig o fanylion am aelodau Côr y Penrhyn. Yr aelod y mis hwn yw Hywel Owen o'r Groeslon ger Caernarfon**



**Be ydy dy enw llawn?** Hywel Owen
**Oed?** 78
**Gwaith?** Wedi ymddeol
**Lle wyt ti'n byw?** Y Groeslon
**Un o le wyt ti'n wreiddiol?** Llanddulas, Abergele
**Pa dri pheth fasai'n dy ddisgrifio orau?** Penderfynol, diwyd a gwamal ar adegau.
**Ers faint wyt ti'n aelod o'r côr?** 2005
**Pa lais wyt ti?** Bas 2
**Pam wnest ti ymuno â Chôr y Penrhyn?** Ar ôl cyfeilio i sawl côr yn y gorffennol awydd canu am newid. Cael gwahoddiad gan Wil Parry (gŵr cyfneither fy ngwraig) a Dafydd Bach.
**Pa un ydy dy hoff gân yn rhaglen y côr?** *Cytgan y Caethweision* o Nabucco (Verdi)
**Pwy ydy dy hoff ganwr/gantores?** Beniamino Gigli
**Beth ydy dy farn di am ganu pop?** 'Rwy'n hoff iawn o ganu pop y 60au ond yn hitio dim am Rap a'i debyg.
**Oes gen ti atgof am ryw ymweliad efo'r côr?** Ymweld â'r UDA yn 2006 a 2015. Hefyd canu gyda Damon Albarn.
**Pa ddiddordebau eraill sy gen ti y tu allan i'r côr?** Carafanio ac ymweld â gwahanol rannau o'r byd.
**Oes yna rywbeth faset ti'n hoffi gweld y côr yn ei wneud?** Ymweld â'r Wladfa
**Unrhyw sylw arall yn ymwneud â'r côr?** Teimlo fy mod wedi cael braint o ganu gyda'r côr dros y blynyddoedd. Yn falch iawn ein bod wedi medru ail ddechrau ar ôl y Covid.


MODURDY FFRYDLAS
Profion M.O.T.
Perchennog
A. Ll. Williams
Stryd Fawr, Bethesda
♦ PROFION M.O.T. ♦
GWASANAETH ♦ ATGYWEIRIO
♦TEIARS A BATRIS♦
GWASANAETH TORRI I LAWR NEU DDAMWAIN
☎ 600723
Ffacs: 605068



DAFYDD CADWALADR
Cynhyrchion Coedlannol
Coed Tân - Llwythi bach a mawr
Ysglodion pren i'r ardd
Ffensio a thorri coed
Asiant system gwresogi trwy losgi coed
01248 605207



JOHN ROBERTS
Paentiwr
Papurwr
Teilsiwr
Symudol: 07747 628650
Ffôn: 01248 600995



BYSUS D. P. Owens RHIWLAS
01248 361044 a 07771 634195
BYSUS O 25 I 57 SEDD AR GAEL AR GYFER EICH HOLL ANGHENION TEITHIO - TRIPIAU, PRIODASAU, PARTÏON AC ATI.
Bysus Gwyrdd Rhiwlas
GWASANAETH LLEOL, TRADDODIADOL A DIBYNADWY
SEFYDLWYD 1997 PERCHENNOG: DERFEL OWENS



Owen's Tregarth
Cerbydau 4, 8 ac 16 sedd
Arbenigo mewn meysydd awyr
Cludiant Preifat a Bws Mini
01248 60 22 60 | 07761 619 475
www.owenswales.co.uk



Gareth Williams
Trefnydd Angladdau
Crud yr Awel
1 Ffordd Garneddwen
Bethesda
600763 neu 07708 008051
GWASANAETH DYDD A NOS


Dilynwch Llais Ogwan ar Trydar **@Llais_Ogwan**

# YSGOL BODFEURIG

**Prysurdeb Mawrth**
Wel, dyna fis prysur oedd mis Mawrth – ynghyd â Dydd Gwyl Dewi ar y 1af roedd hi hefyd yn dydd Mawrth Crempog. Bu dosbarth Idwal yn brysur iawn yn coginio crempogau ac yna, wrth gwrs, yn eu blasu. Mmm!

Yn hwyrach yr un wythnos roedd hi'n Ddiwrnod y Llyfr. Cyfle i ddathlu ein hoff awduron, hoff lyfrau a hoff gymeriadau. Roedd yr ysgol yn orlawn o bob math o gymeriadau – o Harry Potter i Elsa, o'r Gryffalo i fuwch goch gota. Mewn byd o sgrins dyna braf oedd gweld pawb wrth eu boddau gyda llyfrau!



**Ymgyrch codi arian Wcráin**
Mae'n amhosib anwybyddu'r hyn sy'n mynd ymlaen yn Wcráin yn ddiweddar. Sefyllfa dorcalonus sydd wedi cyffwrdd pawb, gan gynnwys plant yr ysgol. Roedd pawb yn awyddus i helpu felly, gydag arweiniad gan y cyngor iechyd a lles, penderfynwyd godi arian trwy wneud gweithgareddau corfforol trwy'r dydd heb stop gyda pawb yn cymryd tro. Er gwaethaf mor ddifrifol oedd rheswm codi'r arian, cafodd pawb lond trol o hwyl yn rhedeg, beicio, dawnsio a llawer mwy. Llwyddwyd i godi swm anhygoel o dros £1,100 tuag at ymgyrch y Groes Goch. Arbennig, blantos a diolch i bawb a gyfrannodd.

**Wythnos gwyddoniaeth Prydain**
Mae byd gwyddoniaeth a STEM yn amlwg ym mhobman, felly fel rhan o wythnos gwyddoniaeth Prydain aeth pawb yn yr ysgol ati i gymryd rhan mewn gweithgareddau hwyliog. Tasg un oedd i greu y gwch gryfaf allan o bapur arian – llwyddodd y gwch gryfaf i gynnal pwysau £1.14 o geiniogau!! Yr ail gamp oedd creu twr allan o 10 darn o bapur a thâp selo yn unig. Roedd y twr uchaf dros 1m o uchder. Da iawn pawb am gydweithio a herio eu hunain.



**Clocsio**
Fel rhan o'n dathliadau Gwyl Dewi cafodd pawb wledd wrth i'n myfyriwr, Mr Jones, ddysgu pawb sut i glocsio. Dyma brofiad cyntaf pawb o'r fath ac roedd pawb wedi gwirioni cael gwylio a dysgu. Diolch o galon, Mr Jones a phob lwc gyda gweddill yr hyfforddiant yn y Brifysgol – rydym yn dymuno'n dda i chi!

**Cyngor Eco**
Bu'r Cyngor Eco yn brysur y mis yma yn codi arian i'r ysgol. Yn dilyn cyfraniad hael o lyfrau ail law i'r ysgol, bu'r criw yn weithgar yn cynnal stondin lyfrau ar gyfer pob dosbarth. Llwyddwyd i godi dros £60 – nawr bydd rhaid meddwl yn ofalus sut i'w wario!




Contractwyr Trydanol

Jones & Whitehead Cyf

Swyddfa Gofrestredig
Penrala, Tregarth, Bangor, Gwynedd, LL57 4AU

Ffôn: 01248 601257
Ffacs: 01248 601982

E-bost: info@jonesandwhitehead.co.uk

ECA CHAS

TEITHIAU ELFYN THOMAS TOURS

FFÔN 01407 731080 WWW.ELFYNTHOMAS.COM

| | | |
|---|---|---|
| 20 Mai | Parti Mawr y Cymry yng Nghaerlyr Dafydd Iwan | 3 Diwr £289 |
| 21 Mai | Tudur Wyn Dylan Morris Gareth Owen a Llion Williams | 2 Ddiwr £199 |
| 10 Mehefin | Taith Tywysoges Gwenllian, gyda tywysydd Llion Williams | 4 Diwr £299 |
| 12 Mehefin | Crwydro Harddwch LLydaw | 7 Diwr £849 |
| 20 Mehefin | Gorllewin Gwyllt Iwerddon Taith y Cymry | 5 Diwr £539 |
| 17 Gorffenaf | Sioe Frenhinol Cymru, Gwesty Clayton Caerdydd | 4 Diwr £399 |
| 31 Gorffenaf | Amryw o becynnau i Eisteddfod Genedlaethol | 1-6 Diwr o £139 |
| 16 Awst | Drama'r Dioddefaint Oberammergau, Soll ar Tyrol | 10 Diwr £1749 |
| 17 Awst | Gwyl Opera Bregenz gyda Dafydd Jones Llanrhaeadr | 7 Diwr £849 |
| 19 Awst | Sioe Geir Prydeinig yn Franborough | 3 Diwr £299 |
| 26 Awst | Tudur Wyn,Tri Digri, Traed Moch Mon, Waterford | 4 Diwr £399 |
| 15 Medi | Drama'r Dioddefaint Oberammergau Innsbruck | 10 Diwr £1749 |

## Tregarth

**Olwen Hills** (Anti Olwen), 48 Bro Syr Ifor, Tregarth (600192)
**Angharad Williams**, 23 Ffordd Tanrhiw, Tregarth (601544)
**Gwenda Davies**, Llanfairpwll (gwendaglyn@hotmail.com)

**Dathlu Priodas Aur**

Llongyfarchiadau i Carys a David O'Connor, 7 Godre'r Parc, Sling, a ddathlodd eu Priodas Aur ar Fawrth 24. Cofion atoch eich dau.

**Penblwydd arbennig**

Dathlodd Huw Morris Jones, 28 Tal y Cae, ei benblwydd yn 21 ar Chwefror 10. Ar hyn o bryd, mae Huw yn fyfyriwr trydydd flwyddyn ym Mhrifysgol Lerpwl yn astudio Pensaerniaeth. Llongyfarchiadau mawr i ti, Huw, ac ymddiheuriadau am fod yn hwyr yn anfon y neges. Gobeithio i ti gael dathliad da gyda dy ffrindiau.

**Profedigaeth**

Ar Chwefror 26, yn dilyn damwain, bu farw Sean Brett, 10, Lon y Waen, Porthaethwy. Mae'r holl ardal yn cydymdeimlo gyda'i wraig Nicola a'r plant, Noah a Hope. O Dregarth mae Nicola yn dod a'i rhieni Linda ac Eirwyn yn byw yn Maes Ogwen. Anfonwn ein cofion atoch oll.

**Er cof**

Mis Medi y llynedd bu farw Owen Tegai Jones yn 83 oed, yn Upton, Gaer. Brodor o Dregarth oedd Owen, yn fab i'r diweddar Huw a Jemima Lloyd Jones, ac yn frawd hoffus i'r diweddar Eira Lloyd Crocombe. Ganwyd Owen yn Tai Teilwriaid, Tregarth.

Priododd Owen â'r diweddar Sian Jones ac ymgartrefu yn Upton, tra yn dilyn gyrfa lwyddiannus a hapus fel Heddwas yn y 'Cheshire Constabulary'. Mae colled i'r teulu i gyd, yn enwedig dwy ferch, sef Nia a Llinos, wyres Bethan a wyr Lewys, a hefyd nith Pamela, cefndryd a chneitherod a ffrindiau.

**Merched y Wawr, Cangen Tregarth**

Llongyfarchiadau i Alison Carden, ysgrifennydd y gangen sydd wedi dod yn Nain unwaith eto yn ddiweddar.

Nos Lun. Mai 9, bydd Tomos Hughes yn son am ei waith gyda'r Gwasanaeth Ambiwlans ac edrychwn ymlaen at y noson honno. Croeso mawr i'r aelodau ac i aelodau newydd i Gapel Shiloh am 7.30 o'r gloch.

STEPHEN JONES
TREFNWR
ANGLADDAU CYF

PEN Y BRYN BETHESDA
GWASANAETH PERSONOL
PEDAIR AWR AR HUGAIN
CAPEL GORFFWYS

BETHESDA • 01248 600455 • 07770265976
Ebost: stephenjonesfuneraldirectors@outlook.com

Dilynwch Llais Ogwan ar
**www.llaisogwan.com**

**Eglwys y Santes Fair**

Rydym yn cynnal gwasanaethau ddwywaith y mis, gyda'r Sul cyntaf yn wasanaeth Cymun Bendigaid a'r trydydd Sul yn wasanaeth Boreol Weddi. Pob gwasanaeth yn dechrau am 9:30yb.

Gyda chyfyngiadau Covid yn llacio ymhellach, mae ein bywydau yn dechrau dod nôl i rywbeth tebyg i'r hyn yr oedd cyn i'r pandemig ein taro, ond mae'n bwysig hefyd ein bod yn parhau i fod yn ofalus, yn enwedig wrth i nifer o achosion gael eu cofnodi yn yr ardal. Cadwch lygaid ar hysbysfwrdd yr eglwys am fanylion y gwasnaethau, y digwyddiadau a'r rhifau cysylltu

**Capel Shiloh Tregarth**

Cofiwch am y gwasanaethau yn Shiloh, bob Sul am 5 o'r gloch

| | |
|---|---|
| Ebrill 17 | Sul y Pasg – Geraint Roberts, Porthaethwy |
| Ebrill 24 | Richard Gillion |
| Mai 1 | Richard Gillion |
| Mai 8 | Oedfa Deulu Cymorth Cristnogol – Eric Jones, Bangor |
| Mai 15 | Gwyndaf Jones, Bangor |
| Mai 22 | Idris Thomas, Dinorwig |
| Mai 29 | R.O.Jones, Gaerwen |

**Drws Agored Shiloh**

Gobeithiwn agor drysau Shiloh ar fore Gwener am 10.00 o'r gloch yn fuan iawn ar gyfer paned, cwmni a sgwrs . Am fwy o wybodaeth cysyllter efo Ffion, Gwenda neu Eirwen.

**Dydd Gweddi'r Byd**

Diolch i Ffion a Gwenda am fynd i gynrychioli Shiloh yn y gwasanaeth arbennig yma yn yr Eglwys Unedig yn Bethesda, Dydd Gwener, Mawrth 11.



# Pwy Sy'n Cofio Ddoe?

**©Dr J. Elwyn Hughes**



Wnes i erioed feddwl y byddai cynifer o ddarllenwyr *Llais Ogwan* yn dangos cymaint o ddiddordeb yn y gwahanol fathau o fwydydd y byddai ein hynafiaid yn eu bwyta ers talwm. Pan ddarllenodd Margaret Llechid Roberts, Ffordd Ffrydlas, am y 'tyrci pei', cafodd ei hatgoffa am ei thad yn gwneud 'sgotyn' iddo'i hun pan na fyddai'n teimlo'n dda a heb fawr o awydd bwyd. Yn ôl a gasglaf, roedd 'sgotyn' yn debyg i 'siot' a 'brwas menyn' (er y byddai tad Margaret, Robin John, yn taenu chydig o bupur ar ei 'sgotyn' hefyd). Fel mae'n digwydd, roedd mam a Robin John wedi'u magu dros y ffordd i'w gilydd, fwy neu lai, ym Mraichmelyn a gellid awgrymu bod eu bwydydd iach a syml wedi rhoi rhyw wytnwch arbennig iddyn nhw: roedd fy mam o fewn deufis i gyrraedd ei phen-blwydd yn 98 oed pan fu farw, a chofir Robin John yn aelod cryf a chadarn o'r `Bethesda Vics', y tîm pêl-droed lleol a ddisgleiriai ledled Gogledd Cymru ddiwedd y 1920au.

Mae'n rhaid i mi grybwyll bod diddordeb yn dal yn y 'gacan bwdin orau 'rioed' a'r hyn sy'n ddiddorol ydi bod darllenwyr, fel Hilda Campbell, Erw Las, a Wyn Roberts, Tregarth, ac eraill, wedi cysylltu efo fi i gynnig mân amrywiadau, fel y fersiwn hwn:

> Wele cawsom ym Methesda
> Bwdin Dolig gorau 'rioed;
> Wyddai Young* na'r Arglwydd Penthyn
> Ddim amdano cyn ei ddod;
> Pwdin yw, du ei liw;
> Blawd a resins a wya bach dryw.

*Young. Alexander Emilius Young oedd Rheolwr Cyffredinol y Chwarel ac Asiant amhoblogaidd yr Arglwydd Penrhyn yn ystod y Streic Fawr, 1900-1903, yn Chwarel y Penrhyn, Bethesda.

Ac o gyfeirio uchod at y Streic Fawr, soniodd Wyn Roberts wrthyf am yr hyn a alwyd yn lleol yn 'Brwas Caffi'. Safai'r Caffi, o fewn adeilad mwy, ar waelod yr allt serth yn dŵad i lawr o Fryn Coetmor i'r Lôn Bost (bron gyferbyn â Londis heddiw). Mae'r adeilad yr oedd y Caffi ynddo wedi'i ddymchwel rai blynyddoedd yn ôl a rhes fechan o dai ('Yr Hen Aelwyd') wedi'u codi ar y safle ond erys 'Allt Caffi' o hyd. Yn y Caffi hwnnw y byddid yn paratoi brwas adeg y Streic Fawr ar gyfer llenwi dysglau pobl anghenus yr ardal.

Wrth gloi y mis hwn, hoffwn holi a all unrhyw un o ddarllenwyr y golofn hon fy ngoleuo ynghylch tri 'rhigwm' sy'n troi yn fy mhen ers tro ond na allaf yn fy myw gofio ond ambell linell o bob un ohonyn nhw. Dyma'r 'dirgelion':

Ar foreau Sadwrn ers talwm, byddai llond bws ohonom yn teithio i wahanol ysgolion i chwarae pêl-droed / hoci yn erbyn timau cyntaf ysgolion Sir Gaernarfon. Cofiaf fel y byddem yn canu, os dyna'r gair cywir i ddisgrifio'r sŵn a wnaem, ryw ddau rigwm nad oes ond ambell linell ohonyn nhw wedi aros yn fy nghof. Dyma a gofiaf:

Mae llong Morus Ifas ar y dŵr, ar y dŵr,
A'i llond o benwaig cochion, meddan nhw,
A'r rheini wedi drewi, meddan nhw ...

Maen nhw'n ddigon da i'r athrawon / Saeson, meddan nhw ...

Mi fytith 'rheini rwbath, meddan nhw ...

A chofiaf lai o'r nesaf:

O, mae Casia wedi boddi ... mewn tún sardîns ...

A llai fyth o'r rhigwm (byr iawn) am 'hogia Braichmêl' nad oedd neb cystâl â nhw nac yn gallu eu curo.

Gadewch i mi wybod pe gallech lenwi'r bylchau – ar y ffôn (07979 50 66 80) neu ar e-bost (johnelwyn@btinternet.com).

Yn olaf, 'Amen, dyn pren, hitio mochyn ar ei ben'. Alla i ddim yn meddwl bod 'na unrhyw beth i'w ychwanegu at hwnna!


**HYWEL WILLIAMS**

**AELOD SENEDDOL DROS ARFON**



**CYSYLLTWCH:**

01286 672076

70 Stryd Fawr, Bangor

hywel.williams.mp@parliament.uk

**YMA I BOBOL DYFFRYN OGWEN AC ARFON**





**C.L. JONES**

Masnachwyr Coed a Nwyddau Adeiladu



Bethesda 01248 600045
Caernarfon 01286 676070
Llangefni 01248 751677

Cludiant am ddim yn lleol
Stoc helaeth ac amrywiol
Staff cyfeillgar a phroffesiynol
Popeth ar gyfer y diwydiant a D.I.Y

Mynytho 01758 730768
Llanrwst 01492 640794
Caergybi 01407 728728

Mae Arddangosfa Ceginau ac Ystafelloedd Ymolchi yn ein cangen yn Llangefni a Llanrwst

# BETHESDA

**Mary Jones**, maryeds@hotmail.co.uk (07443 047642)
**Joe Hughes**, Awel y Nant, Ffordd Ffrydlas, Bethesda (601902)

**Penblwyddi Arbennig**
Dathlodd Dilwyn Owen, Erw Las, ei benblwydd yn 80 mlwydd oed ar 30 Mawrth.
Llongyfarchiadau calonnog i ti Dilwyn, a gobeithio fod dy iechyd di ac Eirwen yn weddol y dyddiau hyn!
Dyma englyn gan Ieuan Wyn i goffáu'r penblwydd arbennig:

**Dilwyn Owen yn 80 oed**
Ifanc yw'r awen sy'n ennyn – y grefft
O greu delwedd englyn,
A deil i gymell Dilwyn
Â dawn llanc i dynnu llun.



**Penblwydd Priodas**
Llongyfarchiadau i Elwyn ac Edna Evans, Allt Pen y Bryn, ar ddathlu 60 mlynedd o fywyd priodasol ar ddydd Sadwrn, 26 Mawrth. Gobeithio i chwi fwynhau'r parti draw yng Nghonwy!

**Cydymdeimlo**
Anfonwn ein cydymdeimlad at Mr. a Mrs. Geraint Saynor a'r hogiau, Maes Coetmor, yn eu profedigaeth o golli tad a thaid annwyl, sef Mr. Ken Saynor, Deiniolen, a fu farw ar 15 Mawrth.

**Diolch**
Dymuna Mrs. Jean Thomas, 39 Abercaseg, ddiolch i aelodau'r teulu a ffrindiau am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniodd wrth iddi ddathlu ei phenblwydd yn ddiweddar. Diolch o galon.

Dymuna Eirwen Owen, Erw Las, ddiolch o galon i'r teulu, ffrindiau a chymdogion am yr holl gardiau,blodau ac anrhegion a dderbyniodd ar achlysur ei phenblwydd yn 80oed yn ddiweddar. Diolch o galon i bawb.

**Marwolaethau**
*Robert Temple Morris*
Ar 7 Mawrth, yn Ysbyty Gwynedd, bu farw Mr. Robert Temple Morris (Bob) o 2 Bryn Tirion, Bethesda.Tad annwyl i Clare a Tracy, a thaid i Molly, Katy, Liam a Lewis. Roedd yn frawd i Kenny, Carys, Richard a Nia. Cynhaliwyd ei angladd yn Amlosgfa Bangor ar fore Llun, 21 Mawrth. Cydymdeimlwn â chi fel teulu i gyd.

*Ian William Thomas Roberts*
Yn Ysbyty Gwynedd, ar 10 Mawrth, bu farw Mr. Ian William Thomas Roberts, Maes Coetmor yn 73 mlwydd oed. Priod annwyl Mrs. Linda Roberts a thad caredig i Jarrod a Laura. Roedd yn frawd i Heather, Gaynor a Joy. Cynhaliwyd ei angladd yn Amlosgfa Bangor. Anfonwn ein cydymdeimlad atoch i gyd fel teulu.

**Sefydliad y Merched Carneddi**
Yn dilyn saib o bron i ddeunaw mis, rydym wedi ailgychwyn gyda'n cyfarfodydd. Ar hyn o bryd rydym yn cyfarfod yn Cefnfaes am 7 pm ar ddydd Iau cyntaf y mis.
Hefyd, rydym wrthi yn brysur yn paratoi ein rhaglen ar gyfer y flwyddyn 2022-23.
Yn dilyn ein Cyfarfod Blynyddol ym mis Mawrth ein Llywydd am y flwyddyn yw Nicola Hughes. Mae croeso cynnes i unrhyw un ymuno â ni.

**Dysgwr y Flwyddyn BIPBC**
Llongyfarchiadau i Manuela Niemetscheck, Carneddi ac yn wreiddiol o Ganada, ar gael ei dyfarnu'n Ddysgwr y Flwyddyn Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn ddiweddar. Derbyniodd brif wobr y Bwrdd Iechyd mewn seremoni yng Ngwesty'r Oriel, Llanelwy, ar Fawrth 1af.

## YR EGLWYS UNEDIG

**Oedfaon**
Mae ein diolch yn fawr i'r canlynol am gynnal gwasanaethau i ni yn ystod y mis diwethaf: Y Parchedig Gwyndaf Jones, Mr. Dennis Davies, Y Parchedig Robert Capon, a'r Parchedig Geraint Roberts. Yn sicr, cawsom fendith o'u gwrando.

**Bore Coffi**
Cynhaliwyd bore coffi yn y Festri fore Sadwrn, Mawrth 19, er budd trueiniad Wcráin, a chawsom ein syfrdanu gan yr ymateb a ddaeth oddi wrth y gymuned gyfan. Gwnaethpwyd elw o dros £1,100 – ac mae'r arian yn dal i ddod i mewn. Diolch o galon i'r rhai a fu'n trefnu, ac yn arbennig i chwi fel trigolion y Dyffryn, am eich cefnogaeth.

**Gig!**
Nos Sul, Mawrth 20, cynhaliwyd gig yn festri uchaf y capel, wedi'i threfnu gan Dilwyn Llwyd, oherwydd bod gwaith yn mynd ymlaen yn Neuadd Ogwen. Band o'r enw 'Gong' oedd yr artistiaid – grŵp o gitarwyr sydd wedi gwneud enw i'w hunain dros y blynyddoedd. 'Roedd 200 o gynulleidfa yn bresennol, a bu'r cyfan yn llwyddiannus dros ben. Diolch i Dilwyn a'r criw stiwardio am gadw trefn, ac am sicrhau bod popeth wedi'i glirio, a'r lle yn hollol daclus yn dilyn y digwyddiad. Credwn mai dyma'r tro cyntaf erioed i achlysur fel hyn gael ei gynnal yn y capel, a gobeithiwn y cawn groesawu eraill tebyg yn y dyfodol.

## EGLWYS CRIST, GLANOGWEN

**Codi cyfyngiadau**
Diolch bod y cyfyngiadau bellach wedi eu codi, er nad yw'r Cofid wedi diflannu – mae'n debyg y bydd yn rhan o fywyd o hyn ymlaen. Mae'n braf teimlo'n fwy hyderus i gymysgu, yn enwedig mewn addoliad, ond byddwn yn deall yn iawn os bydd rhai yn hapusach i ddal ymlaen i wisgo mwgwd, a pharchwn hynny.
Edrychwn ymlaen at groesawu'n ôl i'r gwasanaethau yr aelodau hynny fu'n bryderus am gymysgu dros gyfnod y Clo, ac hefyd am weld ein cynulleidfaoedd yn cynnyddu yn ein capeli a'n heglwysi, gan deimlo bod bywyd yn araf ddychwelyd i normal.

**Gwasanaethau'r Pasg**
Dydd Gwener y Groglith – byddwn yn ymuno yn Eglwys y Groes, Talybont o 2 – 3 i gofnodi'r Croeshoeliad.

Sul y Pasg – gwasanaeth Cymun yng Nglanogwen am 11 y bore.
Fel arfer, mae croeso i unrhyw un ymuno yn y cyfarfodydd hyn.

**Bore coffi**
Diolch i bawb fentrodd i Ganolfan y Cefnfaes ar Fawrth 26 i gefnogi'r eglwys yn y Bore Coffi. Er nad oedd y criw cymaint ag arfer, eto gwnaethpwyd elw o £200, sydd yn ychwanegiad gwerthfawr i gostau cynnal yr eglwys.

**Cyngerdd**
Mae cynlluniau ar y gweill am Gyngerdd Mawreddog gan Gôr Meibion y Penrhyn a Chôr Merched Marsh o Huddersfield, i'w gynnal yn yr eglwys nos Sadwrn Medi 24. Bydd y manylion yn y rhifyn nesaf o'r Llais, a'r elw i fynd at atgyweirio'r tŵr. Diolch yn fawr i'r ddau gôr am eu haelioni.




## LLWYDDIANT I MATTIA

Llongyfarchiadau mawr i Mattia D'Amora, Ffordd Bangor ar gael ei ddewis i gynrychioli'r Sir fel rhan o dîm Pêl-droed Ysgolion Gwynedd Dan 12 eleni. Mae Mattia hefyd yn chwarae i dîm Pêl-droed Wrecsam.

---

**Digwyddiadau**

Erbyn y bydd y Llais wedi dod o'r wasg, bydd digwyddiad pwysig arall wedi'i gynnal yn y festri uchaf a'r ardd - dydd Sadwrn, Mawrth 26, bydd Cymdeithas Cyfeillion Indiaidd Bangor yn cyfarfod. Cawn adrodd yr hanes yn y rhifyn nesaf – mae'n argoeli i fod yn ddigwyddiad lliwgar dros ben!

**Ymuno â Gofalaeth Bro**

'Rydym wedi cysylltu â'n haelodau parthed y posibilrwydd o gael ymuno ag Eglwysi Caeathro, Llanrug a Bethel, sef Gofalaeth Glannau Saint, ac wedi derbyn ymateb cadarnhaol dros ben. Golyga hyn bod gobaith i ni gael gweinidog ar gyfer y pedair Eglwys, a byddai hynny'n golygu bod gennym weinidog am y tro cyntaf ers dros wyth mlynedd. Testun balchder yw ein bod wedi llwyddo i gynnal yr Achos yn ddifugail dros y blynyddoedd diwethaf yma, ond edrychwn ymlaen yn fawr at gael cydweithio gyda chyfeillion Glannau Saint.

**Codi Blaenoriaid**

'Rydym hefyd wedi cymryd llais yr Eglwys parthed cael mwy o flaenoriaid, gan ein bod wedi colli amryw yn ddiweddar, ac 'roedd yr ymateb yn gadarnhaol iawn unwaith eto. Byddwn yn awr yn symud ymlaen gyda'r mater hwn mewn cydweithrediad â'r Henaduriaeth.

**Gwaeledd**

Mae amryw o'n haelodau wedi bod yn dioddef o'r Covid yn ystod y dyddiau diwethaf yma – anfonwn ein dymuniadau gorau atynt, ac at bawb sydd yn gaeth i'w cartrefi ar hyn o bryd.

**Yr Ysgol Sul**

Da yw gweld bod nifer y plant yn cynyddu. Dowch yn llu, blantos!

**Cyhoeddiadau'r Sul**

Ebrill 3: Mrs Nerys Griffiths (5)
Ebrill 10: Mr Richard Ll. Jones (10)
Ebrill 17: Trefniant Mewnol (10)
Ebrill 24: Y Parchedig Anna Jane Evans (5)
Mai 1: Y Parchedig Cledwyn Williams (10)
Mai 8: Mr Gwilym Williams (10)

Cofiwch y bydd pob un o'r oedfaon uchod ar gael dros y ffôn hefyd!

**Gweddi dros Wcráin**

Dyma ran o weddi gan Gymdeithas y Cymod:
Cofiwn yn arbennig am bobl Wcráin, a Rwsia hefyd. Gweddiwn am ddatrysiad di-drais a heddychlon i'r gwrthdaro. Rho i ni galonnau croesawgar i gynnig lloches, a nertha ni i weithio i adeiladu cyfiawnder a heddwch, cymod ac iachád, yn ein calonnau a'n cartrefi, ar ein strydoedd ac ymhob cymuned, cymdogaeth a chenedl. Bendithia bawb sy'n byw dros heddwch, a lles eraill, a boed i'w gwasanaeth ddwyn ffrwyth. Amen.

## CYNGOR CYMUNED BETHESDA

**Diffibrilwyr**

Mae Cyngor Cymuned Bethesda wedi trefnu ac ariannu nifer o ddiffibrilwyr newydd o fewn y plwyf. Mae'r Cyngor wedi bod yn llwyddiannus yn gosod diffibrilwyr newydd yn y mannau isod:

- Rachub - ger y Siop
- Gerlan - y Caban
- Carneddi - ger y Sior
- Braichmelyn - Gernant
- Stryd Fawr - ger Gorffwysfan

Hefyd, bydd diffibrilwyr newydd yn cael ei osod yn fuan iawn yn Glanffrydlas / Ffordd Pant. Hoffai'r Cyngor Cymuned ddiolch yn fawr iawn i Tomos Hughes o'r Elusen Achub Calon y Dyffryn am ei gymorth gyda phrynu a gosod yr holl diffibrilwyr.

**Raffl**

Diolch hefyd am gefnogi Raffl y Pasg a werthwyd rhwng aelodau'r eglwys. Diolch yn arbennig i'r siop Tesco leol a'r rhodd hael o wyau a siocledi. Enillwyd yr hamper gan Mrs Norma Griffiths, a'r ail wobr yn mynd i Ian Hughes.

**Enillwyr Clwb Cant mis Mawrth**:

£50: Mrs Delyth Davies, Ff. Ffrydlas
£20: Richard Hughes, Bethesda
£20: Dewi A. Morgan, Coetmor

Llongyfarchiadau i'r enillwyr!
Tynnir y gwobrau lwcus yng Ngwesty'r Douglas ar y nos Wener olaf o bob mis am 7.30; croeso cynnes i bawb.

**Clirio mynwent**

Diolch i'r criw ddaeth at ein gilydd nos Lun, Mawrth 28, i godi'r bageidau lu o sbwriel (gan gynnwys dau duvet!) a gwneud gwahaniaeth mawr, ac ychwanegu at y gwaith da mae Arwel ac Ian yn ei wneud yn gyson.

Cofiwn yn ein gweddïau am bawb sydd yn sâl neu'n unig yn y gymuned, gan gynnwys y rhai sydd yn hiraethu am anwyliaid; cofiwch roi gwybodaeth os gwyddoch am unrhyw un sydd angen gweddi, ymweliad, neu Gymun yn eu cartref.

**Deon Gwlad newydd**

Llongyfarchiadau i'r Parchedig Ganon Tracy Jones ar ei hapwyntiad yn Ddeon Gwlad dros ardal Arfon. Dymunwn pob bendith iddi ar ei phenodiad ac edrychwn ymlaen at gydweithio gyda hi, ac at ei gweld yn aml yng ngwasanaethau eglwysi Bro Ogwen.

Gellir cysylltu â'r Parch. Tracy Jones ar 01248 361876 ynglŷn ag unrhyw fater yn ymwneud â'r eglwys, gan gynnwys trefnu priodas neu fedydd.

Cofiwch bod Barbara (600530) a Glenys (600371) ar ben arall y ffon os am gael sgwrs.

# Y Gerlan

**Caren Brown**, Cilwern, 14 Ffordd Gerlan, Bethesda, LL57 3ST.
(01248 602509 / 07789 916166)
carenelaine@hotmail.com
**Linda Brown**, 1 Gwernydd, Gerlan, Bethesda, LL57 3TY. (01248 601526)

**Dathlu pen-blwydd arbennig**

Penblwydd hapus arbennig yn 30 i Cai O'Marah, Gwernydd. Dwi'n siŵr bod 'na lawer o ddathlu wedi bod. Mae Cai wedi rhoi her arbennig iddo fo'i hun a bydd yn mynd i America i gerdded y *Pacific Crest Trail* sydd tua 2,600 o filltiroedd. Pob lwc iti ar y daith, Cai, ac edrychwn ymlaen at glywed am yr antur pan ddei di adref.

**Gyrru cofion cynnes**

Gyrrwn gofion cynnes at Ken Hughes, Stryd Goronwy sydd yn Ysbyty Gwynedd ar hyn o bryd.

**Cydymdeimlo**

Gyrrwn ein cydymdeimlad dwysaf at Keith a Vera Hughes yng Nghiltrefnus gan i Keith golli ei frawd, Gareth Hughes, ar y 15fed o Fawrth. Un o Fraichmelyn oedd Gareth ac yn gymeriad annwyl a phoblogaidd yn ei gymuned. Bydd colled fawr ar ei ôl.

**Sioe Milky Peaks**

Mae Lisa Jên, Gwernydd wedi bod yn brysur yn ymarfer sioe gerdd newydd "Milky Peaks" dros yr wythnosau diwethaf. Mae hon yn sioe ysgafn am bentref bach "Milky Peaks" yng nghalon Eryri ac 'roedd i fod i gael ei lwyfannu ym Mawrth 2020. Mae'r sioe nôl ar y lôn yn fuan ac os ydych am ei wylio, bydd cyfle i chi fynd draw i'w weld yn Pontio ar yr 11eg a'r 12fed o fis Mai. Pob lwc, Lisa!

**Diolch**

Hoffai Valerie Hanks, Tantreflys, ddiolch o galon i ffrindiau a chymdogion sydd wedi bod yn dda gyda hi dros y misoedd diwethaf ar ôl iddi gael codwm hegar a chyfnod yn Ysbyty Gwynedd. Mae Val adref erbyn hyn ac yn ddiolchgar am yr holl help a'r caredigrwydd mae gymaint wedi ei ddangos iddi.

**Llongyfarchiadau**

Llongyfarchiadau mawr i Lliwen Angharad, hen Siop Gerlan, sydd wedi cwblhau ei gradd nyrsio. Bydd edrych ymlaen mawr rŵan at y seremoni raddio yn y misoedd nesaf.

**Sheila Wade (Williams gynt)**

Trist iawn ydi gorfod cofnodi i'r ardal golli un arall o'i chyn-drigolion ddechrau mis Mawrth.

Yn 3/4 Stryd y Ffynnon, Gerlan, y ganwyd Sheila ar Ragfyr 19, 1939, yn ferch i Alf a Phyllis Williams, a chwaer iau Ken, Ronnie a Doreen. Yn Ysgol y Gerlan ac yna yn Ysgol Pen-y-bryn y cafodd ei haddysg gynradd, cyn symud wedyn i Ysgol Dyffryn Ogwen. Byddai wrth ei bodd yn canu a chystadlu mewn gwahanol eisteddfodau. Cofiai'n dda ei dyddiau yn YDO , yn gymaint felly nes iddi fynd ati i drefnu aduniad o'r disgyblion oedd yn yr un dosbarth â hi a chynhaliwyd hwnnw ar Fai 6, 2009 – aduniad a fu'n llwyddiant mawr ac sydd wedi aros yng nghof llawer.

Roedd yn aelod ffyddlon o Gôr Wili Parry, Gerlan, a chanai hefyd yng Nghôr Eglwys Glanogwen am flynyddoedd yn ogystal â chael cyfleoedd i ganu unawdau o safon.

Gadawodd Sheila yr ysgol ar ddiwedd y bumed flwyddyn pan gafodd swydd yn dderbynnydd/croesawydd yng Ngwesty'r Rhaeadr Ewynnol, yr ochr yma i Fetws y Coed. Yno y cyfarfu â gŵr ifanc o'r enw Jack Wade. Tua'r adeg honno, cafodd Sheila gynnig mynd i'r London School of Music ond gwrthododd y gwahoddiad, gan ei bod wedi dechrau canlyn Jack erbyn hynn. Priododd y ddau ac aethant i fyw i Kilda yn yr Alban ac yna i Lockerbie lle treuliasant weddill eu dyddiau. Cawsant ddau fab, Kelvin a Paul.

Roedd y ddau wedi ymgartrefu'n hapus iawn yn y gymuned ymhlith eu cyfeillion newydd ac felly hefyd yn yr eglwys, gyda Sheila'n aelod brwd o'r côr. Sefydlodd Jack a hithau gyfarfodydd rheolaidd i ddod â thrigolion lleol at ei gilydd i sgwrsio a chymdeithasu.

Bu farw Jack yn 2021 a thrawyd Sheila'n wael ddiwedd y flwyddyn a bu'n rhaid mynd â hi i'r ysbyty yn Dumfries. Pan ddirywiodd ei hiechyd, anfonwyd am ei mab, Paul, a oedd yn byw yn Awstralia a theithiodd Doreen (sy'n byw yn Llundain) i fod gyda'i chwaer, y ddwy wedi bod yn agos iawn erioed.

Collodd Sheila'r dydd, yng nghwmni ei meibion, Kelvin a Paul, a Doreen, ar Fawrth 4, 2022. Anfonwn ein cymdymdeimlad dwys a diffuant at y teulu i gyd. Bydd colled i lawer ar ei hôl.

Arbenigwr mewn lloriau coed caled
A.G.L. Lloriau
Arbenigwr mewn gosod a selio lloriau coed caled, adnewyddu lloriau gwreiddiol a chyweirio lloriau sydd wedi eu difrodi.
Andrew G. Lomozik B.A.
Ffôn: 01248 602117 Symudol: 07835487909

CAFFI COED Y BRENIN
1 Rhes Buddug, Bethesda
Ffôn: 01248 602550
Bwyd cartref blasus
(mewn awyrgylch cyfeillgar)
Cinio arbennig bob dydd Iau
Bwyd i'w gario allan
Gwasanaeth arlwyo ar gyfer partïon o bob math - plant, pen-blwydd ac ati (yn y caffi neu mewn lle o'ch dewis chi)
Prisiau rhesymol
ORIAU AGOR
D. Mercher, Iau, Gwener 8.00 - 2.30
Gadewch i
Londri Coed y Brenin
wneud eich golchi

Arfbais Douglas Arms
Cwrw Casgen - Gardd Gwrw
Oriau Agor
Sul, Llun a Mawrth – wedi cau
Mercher, Iau a Gwener 18.00 – 23.00
Sadwrn 15.30 – 23.00
01248 602537

Sefydlwyd 1969
m.hughes a'i fab
CONTRACTWYR TOI
Bryn Myfyr, Allt Pen y Bryn, Bethesda
☎ 600633
☎ (symudol) 07702 583765
Arbenigo mewn gwaith ffelt a pitsio.
Hefyd toeau llechi a gwaith yswiriant.
Gadewch i ni gynnig pris rhesymol am waith diguro.

Londis Bethesda
☎ 01248 605566
Archfarchnad hwylus a Swyddfa Bost
Gwasanaeth personol gyda'r pwyslais ar y cwsmer
Tocynnau Loteri, cardiau a biliau trydan a nwy
Ar agor 7.00 y bore tan 10.00 yr hwyr
7 diwrnod yr wythnos

# Nyth y Gân

## NANT

Rhedodd o lethrau'r rhedyn – yn ifanc,
Diofal ei gychwyn;
Ond yn awr ar glawr y glyn,
Araf yw'r hen seguryn.
**Howard Huws**

## NELSON MANDELA AR YNYS ROBBEN

(treuliodd 27 mlynedd yng ngharchar, gan gynnwys 18 mlynedd o lafur caled ar Ynys Robben)

Arwr y carcharorion, yn curo
Cerrig â morthwylion;
Aberthu dros y duon
Yn nos hir yr ynys hon.

## Y GÂN WANWYNOL

Llanwodd y gân y bore
O noethni brigau'r coed,
A hithau'n sionc a swynol
Doedd iddi hyd nac oed.

Ei nodau braf a gafodd
Gryn groeso gennym ni
Oherwydd llifo roeddynt
Fel ffrwd fach yn ei lli.

Y gwryw oedd y cantor
Yn denu ato wraig
O uchelfannau'r goeden
Neu'n is wrth droed y graig.

Daw'r gwanwyn unwaith eto
Fel arfer yn ei dro
I greu y bywyd newydd
A'r gwyrddni yn ein bro.
**Dafydd Morris**




**SIOP OGWEN**

yn cynnig gwasanaeth

**CLIC A CHASGLU**

Llawer o Nwyddau Newydd
gan Grefftwyr Newydd
wedi cyrraedd y siop

Hefyd
Llu o gardiau cyfarch
ar gyfer pob achlysur.
Cysylltwch â'r siop ar
yffôn **07394 905881**

neu E-bost siop@ogwen.org
i drafod beth sydd ar gael ac i
wneud trefniadau casglu a thalu

**CEFNOGWCH WASANAETH LLEOL**

**Oes gennych chi ddiddordeb i hysbysebu yn Llais Ogwan?**

**Cysylltwch â Neville Hughes (Ffôn 600853)**

nev_hughes@btinternet.com

MODURON PANDY Cyf.

MOT Diesel a Chatalydd
Atgyweirio MOT
Gwasanaethu Cerbydau
Cydbwyso Teiars
Batris
Tracio

01248 600619

moduronpandy@yahoo.com
www.moduronpandymotors.co.uk

Tregarth, Bangor,
Gwynedd LL57 4AY

UNIPART CAR CARE CENTRE

JR SGAFFALDIAU Cyf. SCAFFOLDING Ltd.

YR IARD, FFORDD STESION, BETHESDA,
GWYNEDD LL57 3NE
ebost: sales@jrscaffolding.co.uk

Ffôn/Ffacs:
01248 601754
07770 568743 (symudol)

CITB

# CHWILAIR

## STRYDOEDD

| | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| W | M | B | L | Q | C | E | G | D | I | O | W | P | V | R | T | Q | L | X | F |
| R | L | O | N | G | R | O | E | S | V | G | S | M | Z | S | L | B | S | E | B |
| S | Y | X | T | W | G | R | M | R | K | F | R | O | N | D | E | G | D | W | C |
| Q | T | E | K | G | L | D | L | H | D | B | W | C | D | D | S | F | N | D | H |
| Q | Z | O | S | L | Z | O | V | E | U | R | H | X | B | Y | D | R | Y | H | M |
| N | Y | Y | Y | B | I | L | U | S | J | Y | E | Q | R | T | X | O | X | N | C |
| E | Q | B | U | C | A | H | R | S | E | N | Y | Q | O | H | I | N | D | O | T |
| W | O | C | J | K | M | Z | G | T | L | H | R | O | S | M | Q | C | W | N | D |
| N | E | A | G | K | G | K | Q | A | L | E | S | L | A | V | G | H | X | N | S |
| F | V | N | E | B | J | B | R | N | T | D | D | K | L | N | L | W | H | Y | X |
| Q | G | S | D | R | E | M | X | L | M | Y | K | U | E | Q | L | I | Z | F | B |
| Q | Z | R | A | K | C | D | A | E | A | D | O | W | M | E | X | T | N | F | Y |
| S | D | S | D | J | G | W | H | Y | T | D | R | N | R | G | Q | H | O | Y | N |
| Y | Z | F | D | O | D | B | W | L | Y | E | K | A | D | J | M | V | R | D | R |
| Z | G | G | W | Y | J | E | A | M | D | Q | W | K | Z | Q | W | N | F | Y | W |
| M | H | B | R | C | Z | P | X | D | Y | H | R | I | Z | N | Z | Y | Y | R | L |
| Q | O | T | J | T | N | L | N | Z | C | N | F | H | V | V | P | C | N | T | N |
| Y | S | Z | O | G | K | A | E | E | X | U | U | Z | V | Q | P | A | A | S | P |
| H | S | Q | J | K | T | I | A | M | B | R | Y | N | O | W | E | N | T | W | X |
| V | H | L | H | T | U | C | Y | M | E | I | U | U | H | S | J | O | Q | I | T |

Yn y Chwilair mis yma mae ENW DEUDDEG STRYD i'w darganfod. Mae un cliw wedi ei ddangos yn barod. A oes modd i chwi ddod o hyd i'r gweddill? (Mae LL, CH, DD, TH, acyb yn **un** llythyren yn y Gymraeg, ond i bwrpas y Chwilair dangosir hwynt fel dwy lythyren ar wahân).

Atebion gydag enw a chyfeiriad i Andre Lomozik, Zakopane, 7 Rhos y coed, Bethesda, Bangor, Gwynedd LL57 3NW, erbyn 29 Ebrill. Bydd gwobr o £10 i'r enw cyntaf allan o'r het. Os na fydd unrhyw un wedi canfod y deuddeg, yna'r rhif agosaf fydd yn cael y wobr.

**Dyma atebion Chwilair Mawrth:** Abercaseg; Bron Arfon; Bron Bethel; Cil Caseg; Ciltrefnus; Llawr y Nant; Llwyn Bedw; Maes Athro; Rhos y Coed; Stad Coetmor; Tan y Gaer; Yr Ynys.

Diolch yn fawr i chwi oll am roi cynnig ar y Chwilair, y rhai ffyddlon sydd yn ceisio pob mis, a hefyd nifer fawr o gystadleuwyr newydd.

**Dyma enwau'r rhai a gafodd yr atebion cywir:** Doris Shaw, Bangor; Rosemary Williams, Tregarth; Barbara Anne Conlan, Glanogwen; Dilys W. Griffith, Abergele; Eirwen Owen, Bethesda; Amanda Roberts, Gerlan; Helen Jones, Bethesda; Olive Williams, Maes y Garnedd; Gwenda Bowen, Gerlan; Gwen Davies, Bethesda; Elizabeth Buckley, Tregarth; Carys Parry, Glanogwen; Wendy Dore, Bethesda; Heulwen Roberts, Bethesda; Colin Davies, Blaenau Ffestiniog; Marilyn Jones, Glanffrydlas.

**Enillydd Mawrth oedd:**
**Carys Parry**, 8 Glanogwen, Bethesda.

# Enwau Dyffryn Ogwen

**Dafydd Fôn Williams**

**Mynydd a Bryn**
Aryg, Bera Bach/ Bera Mawr, Braich y Llyngwn, Bryn Dadlau, Carnedd Dafydd, Carnedd Llywelyn, Cefn yr Orsedd, Drosgl, Drum, Foel Grach, Moel Faban, Moel Wnion, Moelyci, Foelgraig, Garn, Pen yr Ole Wen, Tryfan, Gyrn, Gyrn Wigau, Ysgyfeinciau, Y Carneddau.



Y Carneddau

**Cyflwyniad**
Mae'n gred gyffredinol ym maes enwau llefydd mai'r enwau hynaf mewn bodolaeth yw enwau afonydd, a chredir fod ambell un ohonynt yn mynd yn ôl filoedd o flynyddoedd. Yn union fel mae enwau rhai o afonydd y Cilgant Aur (yn y Dwyrain Canol) yn deillio'n ôl bedair a phum mil o flynyddoedd.

*'The earliest place- and river-names in England for which etymologies can be suggested are those of Celtic or British origins. There are, however, some names which ... may be earlier... It now seems certain that a small group of pre-Celtic river names is still in use today'*

*English Place Names, Kenneth Cameron, t.33*

Efallai fod a wnelo'r ffaith fod dyfroedd o bob math yn gysegredig fel rhoddwr bywyd i'r diwylliannau cynnar lawer i'w wneud gyda chadw'r enw gwreiddiol pan gymerid meddiant o'r tir gan bobl wahanol.

Bid a fo am hynny, dydy hyn ddim yn wir am fynyddoedd a bryniau; maent hwy yn llawer mwy agored i newid enwau. Does ond rhaid edrych ar enwau mynyddoedd unigol, ac ardaloedd mynyddig, yn y gwledydd a wladychwyd yn y canrifoedd diwethaf i weld mai enwau'r coloneiddwyr sydd ar y rhan fwyaf ohonynt, megis y Rockies yng Ngogledd America, y Blue Mountains yn Awstralia, a Snowdonia yng Nghymru. Anwybyddir enwau brodorol, a rhoddir enwau coloneiddwyr, neu enwogion y coloneiddwyr, arnynt, megis Everest, Mount McKinley, a nifer o rai eraill. Dim ond yn y blynyddoedd diweddar, wedi brwydr hynod galed a hir yn Awstralia, y llwyddwyd i adennill enw swyddogol y brodorion, Ularu, ar graig unigryw a chysegredig iddynt, wedi dwy ganrif o gael ei hadnabod fel Ayre's Rock. Ie, bregus iawn yw enw mynydd. Does ond rhaid inni edrych ar fap OS o Eryri i weld pa mor fregus yw ambell enw. Mae llawer o'r enwau llai adnabyddus mewn perygl dybryd o ddau gyfeiriad, sef oherwydd Seisnigo gan ymwelwyr nad oes ganddynt ddiddordeb ond troi popeth i'w melin – a'u hiaith – eu hunain, ac oherwydd ein bod ni, frodorion lleol, yn llawer llai cybyddus â'n hardal ein hun, ac yn gwybod fawr ddim am yr hyn sydd y tu allan i'n libart bach, personol ein hunain. Mewn oes a fu, roedd pob rhan o'r mynydd-dir yn hollol gyfarwydd, yn enwedig i'r ffermwyr, gan fod terfynau, cynefinoedd, a lleoliadau yn hanfodol i'w gwaith bob dydd. Ysywaeth, mae'r wybodaeth honno yn prysur fynd ar ddifancoll.

Ond i fynd at yr enwau eu hunain, a hynny yn yr iaith frodorol, y Gymraeg, fe ellir rhannu'r rhan fwyaf o enwau mynyddoedd a bryniau yn wahanol ddosbarthiadau.

1. Enwau disgrifiadol: dyma'r garfan fwyaf o lawer, gyda'r enwau yn cynnwys ffurf, lliw, natur, neu rhyw agwedd arall sy'n disgrifio'r mynydd, neu'n atgoffa edrychwr o rywbeth sy'n gyfarwydd iddo. Un o'r enghreifftiau gorau o hyn, er y tu allan i ardal yr astudiaeth hon, yw'r enw llafar ar Mynydd Mawr/ Mynyddfawr, rhwng Cwellyn a Nantlle, sef Mynydd Eliffant. Mae hwn, hefyd, yn enw gweddol ddiweddar, gan mai diweddar yw adnabyddiaeth y bobl leol o'r creadur mawr hwnnw. Dyna ichi Cnicht, wedyn, sydd, mae'n debyg, yn dod o'r Sarsneg Canol '*knight*' am fod ei ffurf yn atgoffa pobl o farchog. Gydag enwau, yn aml iawn, mae pobl yn mynd i chwilio am ystyr astrus i enw pan mai ystyr syml, disgrifiadol sydd iddo. Yn weddol aml, mae enw disgrifiadol yn cael ei roi oherwydd y wedd sydd ar y mynydd o un cyfeiriad, e.e. dim ond o'r gogledd-orllewin y mae Mynyddfawr yn edrych fel 'eliffant'.
2. Enw sy'n dwyn enw cymeriad hanesyddol, neu chwedlonol. Gall y cymeriadau hyn fod yn rhai dinod, fel perchennog, neu dirddaliwr mewn oes a fu, yn bennaeth pwysig, neu'n dywysog, neu'n gymeriad mewn chwedl leol, neu genedlaethol. Mae'r cyntaf, o reidrwydd yn unigryw, ac yn lleol, megis Lleucu (Moelyci), Maban (Moel Faban ), Mafon/ Mafan (Nanafon). Felly, hefyd, ambell gymeriad chwedlonol, megis Idris (Cader Idris ), Rhita Gawr (Wyddfa), tra bod ambell gymeriad, megis Arthur, yn gysylltiedig ag amrywiaeth o lefydd gwahanol (*Mae Bwrdd Arthur yn Llanfihangel Dinsylwy, Ynys Môn, ond mae ei gadair yng Nghaeredin!*).
3. Enwau sy'n gysylltiedig â chwedl, neu lên gwerin, o ryw oes. Gall y stori fod yn uniongyrchol gysylltiedig gydag un mynydd neu fryn, neu gall fod yn gysylltiedig gyda nifer o lefydd (er enghraifft, Hela'r Twrch Trwyth). Yn amlach na heb, mae'r storiau hyn wedi mynd ar goll, ac ni allwn ddychmygu beth oeddynt.
4. Ambell eithriad i'r uchod, ond eithriadau prin iawn ydynt.

## Rachub a Llanllechid

**Emlyn Williams**, Pont Llan, Llanllechid, Bangor, LL57 3LE
(07887624459) henbarc13@gmail.com

**Cyngor**

Y mae'r gwaith archaeoleg yng Nghae Rhosydd wedi gorffen ac y mae gwaith paratoi ar gyfer adeiladu yno wedi dechrau.Ar ôl cael gwrthwynebiad gan Gyngor Llanllechid, penderfynodd Cyngor Bethesda dynnu'n ôl ei gais i drosglwyddo Llwyn Bedw a Chae Rhosydd i ardal Cyngor Bethesda.

Achoswyd trafferth (yn enwedig i gerbydau a oedd yn teithio o Garneddi i Lanllechid) wrth i waith angenrheidiol gael ei wneud ar yr ynys traffig yn Sgwâr Rachub.

Dymunwn wellhad iechyd i Keith Thomas, Tan y Garth.

Llongyfarchwn Michael a Keilly Williams, Lôn Groes am fod yn Nain a Thaid am y tro cyntaf wrth i Anna (Llanfairfechan) gael merch o'r enw Mili.

**Priodas**

Ar ddydd Sadwrn, 26 Mawrth priodwyd Rebecca Scott, Swyddfa Bost, Rachub a Huw Davies o Lanfairpwll. Bu'r gwasanaeth yn Eglwys yr Efengylwyr ym Mangor. Roedd un gwestai arbennig iawn yn bresennoL, sef Nain Dorothy. Daeth hi, yn 99 mlwydd oed, o Awstralia i ddathlu'r briodas gyda'r teulu.

**Llongyfarchiadau**

Llongyfarchiadau i Anna a Dave, Llanfairfechan ar enedigaeth merch, Mili. Hefyd llongyfarchiadau i Michael a Keilly, Lon Groes ar ddod yn nain a thaid ac i Ann Tugwell ar ddod yn hen nain, neu nain Ann fel y mae'n hoffi cael ei galw.

**Ysbyty**

Croeso adref i'r Cyng Godfrey Northam wedi iddo dreulio cyfnod yn Ysbyty Gwynedd. Gobeithio ei fod yn gwella.

**Cydymdeimlwn**

Cydymdeimlwn â Margaret Bowen Rees, Sgwar Rachub wedi iddi golli ei chwaer-yng-nghyfraith yn ddiweddar ym Mangor.

**Llwyddiant**

Llongyfarchiadau i Elis Evans, Mignant, ar gael ei ddewis i garfan ddatbylgu Dan-18 Undeb Rygbi Cymru. Chwaraeodd y garfan gêm gyfeillgar yn erbyn carfan gyffelyb yr Alban yn ddiweddar, gan ennill o 46 pwynt i 31. Da iawn, Elis!

SAMARIAID
Gogledd Orllewin Cymru

Beth bynnag rydych chi'n ei wynebu
Rydyn ni yma i wrando

Llinell Gymraeg ddi-dâl
7-11pm bob nos

0808 164 0123

Gwefan: www.samariaidbangor.cymru

Dilynwch Llais Ogwan ar
**www.llaisogwan.com**

## Capel Carmel

Mae Mr Godfrey Northam wedi cael dod adref o Ysbyty Gwynedd, ac mi roedd hi'n braf iawn ei weld yn ei ôl yn oedfa'r hwyr unwaith eto. Mae Mr Keith Thomas yn mynd i Ysbyty Glan Clwyd bob dydd ar hyn o bryd i dderbyn triniaeth. Rydym ni'n dymuno yn dda iddo gan obeithio y bydd yn cryfhau ac yn teimlo gwelliant yn fuan iawn.

**Llongyfarchiadau**

Llongyfarchiadau i Anna Mair a'i phartner, Dave, ar enedigaeth merch fach – Mili Mair.

Llongyfarchiadau i Keilly a Michael ar ddod yn nain a thaid am y tro cyntaf ac i Ann ar ddod yn hen nain i Mili fach.

**Yr Ysgol Sul a Chlwb Dwylo Prysur**

Cafodd pob un o'r plant becyn gwaith ar gyfer mis Ebrill. Roedd croes balmwydd ac ŵy Pasg ym mhob pecyn hefyd. Mi fyddwn ni'n ailddechrau'r Ysgol Sul yn yr ysgoldy ar y 24 o fis Ebrill am 10:30 AM a Chlwb Dwylo Prysur ar nos Wener y 29 o fis Ebrill am 6:30 PM

Llun Cadi wrth iddi hi dderbyn ei phecyn gwaith hi ar gyfer Suliau'r Blodau a'r Pasg.



Dilynwch Llais Ogwan ar
Trydar **@Llais_Ogwan**

DYFFRYN GWYRDD
PARTNERIAETH OGWEN

GYRRWYR CYMUNEDOL
GWIRFODDOL

Ydych chi?...
- Yn licio cymdeithasu?
- Isio rhoi yn ol i'ch cymuned?
- Gyda amser rhydd?

Os ydych, tybed fasa chi'n ystyried bod yn yrrwr cymunedol gwirfoddol o gwmpas Dyffryn Ogwen?

Mae prosiect y Dyffryn Gwyrdd yn chwilio am unigolion a hoffai helpu aelodau o'n cymuned sydd mewn angen i fedru cyrraedd apwyntiadau ac i gymdeithasu. Os ydych eisiau gwybod mwy, cysylltwch â ni am sgwrs.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Am fwy o wybodaeth...
Ebost: harri@ogwen.org
Ffon: 07394906036

CRONFA GYMUNEDOL COMMUNITY FUND

# YSGOL LLANLLECHID

**Dymuniadau Gorau**

Cafwyd cyfle i ffarwelio a dymuno'n dda i Ms Rhian Haf yn ystod mis Mawrth. Cofiwn am holl waith gofalus Ms Haf yn y dosbarth Meithrin; yno'n croesawu, cyfarch a chofleidio ein plant bach ieuengaf. Doedd ryfedd yn y byd eu bod i gyd yn setlo'n syth bin! Cofiwn am waith bendigedig Rhian Haf yn y caban Meithrin, lle bu'n gofalu ac yn ysgogi plant bach cyn ysgol. Rydym yn parhau i gofio'r arddangosfeydd lliwgar ar y ffenestri! Tra yn dysgu'r dosbarth Meithrin, bywiogodd Rhian y waliau gyda'i gwaith Celf celfydd, sy'n parhau i fod yno hyd heddiw, ac yn edrych yn dda!

Diolch i ti Rhian am dy gwmniaeth a dy holl ymdrechion i'n cynorthwyo yma yn Ysgol Llanllechid. Mi 'rydan ni'n dal i gofio'r diwrnod pan ddaethost ag Alys Haf i'r ysgol, a hithau'n ddwyflwydd oed, er mwyn ei chofrestru. Llawer o ddŵr wedi llifo dan y bont ers hynny! Bu'n braf iawn dy weld Rhian, a chael cyfle i dy anrhegu, er na fu'n bosib i ni wneud hynny o flaen yr holl ddisgyblion, oherwydd yr amseroedd rhyfedd yma. Dymuniadau gorau i ti oddi wrthym i gyd yn Ysgol Llanllechid, yn blant, staff, rhieni a Llywodraethwyr. Mwynha'r cyfnod nesaf a phaid â chadw'n ddiarth!



**Y Prifardd Ieuan Wyn**

Llawer o ddiolch am dywys ein dosbarthiadau Blynyddoedd 3 a 4 am dro i ddysgu am ein cynefin. Cafwyd amser bendigedig yn cerdded i fyny allt Caellwyngrydd at lidiart y mynydd i ddechrau, cyn ymlwybro at Chwarel y Foel. Gwelwyd Nant y Garreg Coch a dysgwyd beth oedd arwyddocad y Cwt Mochel, a llu o ffeithiau diddorol eraill. Roedd y disgyblion wrth eu boddau yn clywed am yr Hafod a Hendre, a ffordd o fyw ein cyndeidiau. Addysg ar ei orau! Braf oedd ymwybro ar lethrau Moel Faban, a rhyfeddu at olygfeydd ysblennydd yr ardal. Diolch o waelod calon am roi o'ch amser i'n cynorthwyo yn Ysgol Llanllechid, ac edrychwn ymlaen yn eiddgar at y dro nesaf!

**Croeso Cynnes**

Ar yr un gwynt, estynnwn groeso cynnes iawn i Mrs Lois Nottingham atom fel athrawes yn y dosbarth Meithrin. Yn gyn-ddisgybl, mae Lois yn ymwybodol o bob twll a chornel yma, er fod cryn dipyn o newidiadau ers y cyfnod cynnar! Croeso cynnes Lois! Braf iawn cael cydweithio hefo ti, a diolch am dy ddiwydrwydd.

**Plas Ogwen**

Unwaith eto diolchwn i Mrs Sharon Williams a'r staff ym Mhlas Ogwen am y croeso twymgalon. Roedd ein disgyblion ni wrth eu boddau yn cael dod draw i ddiddanu'r preswylwyr. Yn anffodus, oherwydd yr amseroedd rhyfedd yma, nid yw'n bosib i ni fynd i mewn i Blas Ogwen, ond mae'r profiad yr un mor werthfawr i'n plantos bach. Braf gweld rhai o'r trigolion yn ymuno i mewn i ganu Calon Lân hefo ni. Bu ein disgyblion hefyd yn creu Cardiau Codi Calon i'r trigolion! Diolch i Mrs Humphreys am arwain y canu ac edrychwn ymlaen at gael dod yn ôl i'ch gweld eto'n fuan!



**Pwy yw'r Môr Ladron?**

Wel, haid o ddisgyblion dosbarth Mrs Rona Williams a fu am antur ar draethau Môn! Pob disgybl yn werth ei weld yn eu gwisgoedd! A gwisg Mrs Rona Williams, Ms Owena a Ms Gwen yn coroni'r cyfan oll!

## Gair neu ddau – John Pritchard

**ANOBEITHIOL?**

"Dwi'n anobeithiol!" Nid dyma'r tro cyntaf i mi ddweud hynny. Rwyf wedi ei ddweud lawer tro gan wybod ei fod yn wir. Dwi'n anobeithiol yn yr ardd. Dwi'n anobeithiol o ran cofio enwau. Dwi'n anobeithiol o ran gwared â phethau diangen. A heno unwaith eto, dwi'n anobeithiol o ran llunio'r erthygl hon. Wedi meddwl ers oriau am rywbeth i'w ddweud, dwi ddim nes i'r lan ac yn teimlo'n aneffeithiol ac yn dda i ddim. Gwaeth na hynny, dwi'n gwybod fy mod yn aml iawn fel Cristion yn anobeithiol fy nhystiolaeth a'm gwasanaeth i'r Arglwydd Iesu Grist. Mi garwn fod yn well. Mi garwn fod yn fwy ffyddlon. Ond dwi'n methu â charu Duw, yn methu â bod yn debyg i'r Iesu ac yn methu'n lân â charu pobl fel y dylwn. Ydw, dwi'n wirioneddol anobeithiol ac yn gorfod cydnabod hynny i mi fy hun ac i Dduw. A does neb a ŵyr yn well na Duw mor anobeithiol ydw i ac mor aneffeithiol fûm i fel Cristion ar hyd y blynyddoedd.

Ond y mae i'r gair 'anobeithiol' ystyr arall. Gall olygu 'aneffeithiol' neu 'affwysol', ond ei briod ystyr a'i ystyr arferol yw 'diobaith' neu 'heb obaith'. Ac felly mentraf ddweud yn hyderus, "Dwi ddim yn anobeithiol". Oherwydd, er mor sâl ac aneffeithiol ydw i, mae'r Efengyl yn cynnig i mi obaith sicr. Does gen i ddim achos i fod yn ddiobaith â Duw yn fy ngharu. Sut allaf fod heb obaith â'r Iesu wedi dod yn Waredwr i mi? Fedraf fi ddim bod yn anobeithiol â'r Ysbryd Glân wedi f'argyhoeddi bod i mi faddeuant llawn am bob bai trwy Iesu Grist, Fab Duw. Ydw, dwi'n anobeithiol yn yr ystyr fy mod i fy hun yn analluog i blesio Duw, ond dwi ddim yn anobeithiol chwaith am fod yr Efengyl yn fy sicrhau fod Duw yn fy nerbyn yn haeddiant ei Fab Iesu.

Nid oes angen dweud wrth yr eglwysi eu bod hwythau i raddau helaeth yn anobeithiol yn yr ystyr eu bod yn aneffeithiol eu tystiolaeth a'u gwaith. Mae'n anodd iddynt beidio â bod felly gan mai cwmni o bobl ffaeledig sydd wedi troi mewn edifeirwch a ffydd at Iesu Grist yw pob eglwys. Ac eto, nid anobeithiol mohonynt am fod Duw yn ei ras wedi addo nerth ei bobl a'u defnyddio i lwyddo ei waith er gogoniant i'w enw.

Ac wrth edrych wedyn ar ein byd a'i holl drafferthion, mor rhwydd yw bod yn anobeithiol yn nau ystyr y gair. Gallwn deimlo mor anobeithiol ac analluog i wneud dim i ddatrys problemau a diwallu anghenion a lleddfu ofnau pobl ymhell ac agos. A gallwn hefyd fod yn anobeithiol neu'n ddiobaith yn wyneb yr holl ddrygioni a'r dioddefaint a welwn ac a wynebwn. Ond o gofio bod popeth yn llaw'r Arglwydd Dduw, a bod modd i ni gredu ei fod Ef yn rheoli dros y cyfan (er nad yw hynny'n amlwg i ni bob amser), nid oes raid bod heb obaith am fod yr Arglwydd Dduw, ym mhob peth a thrwy bob peth, yn dwyn ei waith i ben.

# Natur o'n Cwmpas

# Yr Ysgyfarnog Fynydd

Yn y rhifyn diwethaf soniwyd am yr ysgyfarnog gyffredin, a'r tro hwn rydym yn rhoi peth o hanes yr ysgyfarnog fynydd (*Lepus timidus*). Un o greaduriaid cynhenid ucheldiroedd yr Alban ydi'r ysgyfarnog fynydd ac mae iddi is-rywogaeth (*Lepus timidus hibernicus*) yn Iwerddon. Mae'r sgwarnod fynydd yn llai o faint na'r sgwarnog gyffredin, ac o ran lliw mae ei ffwr yn gymysg o flew glas a blew brown. Dyma pam mai *blue hare* ydi un o'r enwau Saesneg arni yn yr Alban. Pan ddaw'r gaeaf bydd ei ffwr yn troi'n wyn, yn guddliw er mwyn diogelwch yn yr eira rhag llwynogod ac eryrod.

Cafodd y sgwarnog fynydd ei chyflwyno i Gymru o'r Alban ac Iwerddon yn niwedd y 19eg ganrif gan dirfeddianwyr er mwyn ei hela. Rhyddhawyd nifer o barau ar y Berwyn, yn Nyffryn Conwy, Dyffryn Lledr a Phenmaenmawr, ac yn ein hardal ni fe'u cyflwynwyd i ardal y Glyderau ac ardal y Carneddau gan Stad y Penrhyn, Byddai'r Arglwydd Penrhyn yn gwahodd ei gyfeillion o bell ac agos i ddod i Bryn Hall uwchlaw Bryn Hafod-y-Wern, Llanllechid er mwyn eu hela ar ffriddoedd y ffermydd mynydd. Y tu ôl i Bryn Hall, yng ngwaelod isaf Waun Bryn wrth giât y mynydd, mae hen bwll-dŵr hirsgwar, bas a ddefnyddid i olchi bacsiau'r ceffylau a fyddai'n tynnu cerbydau'r 'byddigions'.

Erbyn dechrau'r ugeinfed ganrif, roedd y sgwarnog fynydd wedi prinhau ym mynydd-dir gogledd Cymru, ond ni ddiflannodd o'r tir yn llwyr yn y Carneddau tan y 1960au. Y farn ydi eu bod wedi methu ag ymgynefino am nad oedden nhw wedi llwyddo i fagu digon o lefrod. Mae'n bosib eu bod mewn cystadleuaeth â'r ysgyfarnog gyffredin o ran cael llecynnau mewn llwyni eithin a choedwigoedd i sicrhau gwâl ddigon diogel, a bod llwynogod a charlymod yn cipio llawer o'u lefrod. Hefyd, mae'n bosib fod gor-hela wedi cyfrannu at eu difodiant.

Yn ei gerdd 'Y Peilon', a gyfansoddwyd yn 1940, mae hi'n debygol iawn mai cyfeirio at y sgwarnog fynydd yr oedd y bardd R. Williams Parry pan ddywed '... yr ysgyfarnog fach, / Y brid sydd rhwng Llanllechid a Llanrwst'.



**Wyddech chi ...?**

- fod cofnod yn rhifyn 3 Gorffennaf, 1895 o'r papur newydd *Baner ac Amserau Cymru* fod 'lluwch anferth o eira ... yn galed fel craig' wedi ei weld ym Mlaen Cwm Eigiau yr wythnos olaf o Fehefin y flwyddyn honno.
- mai yn y Ffos Ddyfn ar wyneb gogleddol Carnedd Llywelyn y mae rhew yn parhau hiraf heb ddadmer.

*Mae'r golofn hon yn rhoi sylw i ryfeddodau a gwahanol agweddau ar fyd natur Dyffryn Ogwen a'r cyffiniau, gan fanteisio ar wybodaeth leol ac ar ffynonellau eraill. Anfonwch eich cyfraniadau at*
*Ieuan Wyn, Talgarreg, Ffordd Carneddi, Bethesda LL57 3SG ieuanwyn01@gmail.com 01248 600297.*

# Cyngor Gwynedd yn rhoi lle amlwg i'r iaith Gymraeg

Fel rhan o ymdrechion i hybu a hyrwyddo'r Gymraeg ymysg holl drigolion Gwynedd, mae'r Cyngor wedi datblygu adran benodol ar ei wefan sy'n dwyn ynghyd gwybodaeth allweddol am yr iaith a diwylliant Cymru.

Mae'r tudalennau newydd ar www.gwynedd.llyw.cymru/YrIaithGymraeg yn cynnig siop-un-stop ar gyfer unrhyw un sy'n byw yng Ngwynedd ac angen gwybodaeth am yr holl wasanaethau sydd ar gael i gefnogi defnydd o'r iaith.

Mae'r wybodaeth yn cynnwys clipiau fideo byr gan rai o drigolion Gwynedd am y profiad o ddysgu Cymraeg, e-lyfr 'Symud i Wynedd' sy'n rhoi mwy o wybodaeth am iaith a diwylliant Gwynedd i fewnfudwyr i'r sir a rhagor o fanylion am waith Hunaniaith – Menter Iaith Gwynedd, ynghyd a chymorth i fusnesau.

Y bwriad yw parhau i ddatblygu'r adran ar-lein a fydd hefyd yn cynnwys map rhyngweithiol a fydd yn cofnodi enwau llefydd llafar a ddefnyddir gan bobl Gwynedd a map arall a fydd yn dangos y gweithgareddau cymunedol amrywiol cyfrwng Cymraeg sydd ar gael yma.

Dywedodd y Cynghorydd Nia Jeffreys, Aelod Cabinet Cefnogaeth Gorfforaethol Cyngor Gwynedd:

"Yma yng Ngwynedd, mae gennym hanes hir a balch o hybu defnydd y Gymraeg. Mae holl wasanaethau'r Cyngor ar gael yn y Gymraeg ac rydym yn annog trigolion i wneud y defnydd llawn o'n gwasanaethau.

"Ein bwriad wrth ddatblygu'r tudalennau newydd yma ar y wefan ydi dwyn ynghyd gwybodaeth ddefnyddiol a'i wneud mor hawdd a phosib i bobl allu cael mynediad at gefnogaeth a manylion am yr iaith.

"Mae gwybodaeth wedi ei ddatblygu yn ddiweddar i hyrwyddo pwysigrwydd yr iaith i unrhyw un sy'n symud i Wynedd o rannau eraill o Gymru neu du hwnt. Rydan ni'n awyddus fod pawb sy'n byw yma yng Ngwynedd yn deall pwysigrwydd yr iaith ac yn gallu gwneud y mwyaf o'r iaith.

"Mae manylion am hyn ar gael ar y tudalennau newydd gan roi cyflwyniad i'r iaith Gymraeg, a'i lle ym mywyd pob dydd y boblogaeth leol a hynny ym myd addysg, yn y gwaith ac yn y gymuned ei hun. Yn ogystal mae'n cynnwys gwybodaeth am sut i fynd ati i gynnwys y Gymraeg mewn bywyd personol a theuluol, er mwyn helpu i ymgartrefu o fewn y gymuned.

"Mae Gwynedd yn unigryw yng Nghymru fel cadarnle i'r Gymraeg - dyma rywbeth yr ydym yn falch iawn ohono ac yn rhywbeth yr ydym am ei drysori a'i feithrin i'r dyfodol."

Am fwy o wybodaeth neu unrhyw gyngor pellach ewch draw i'r tudalennau newydd ar wefan Cyngor Gwynedd ar www.gwynedd.llyw.cymru/YrIaithGymraeg

# Iaith Pesda

Diolch i'r rhai ohonoch am eich hymateb i golofn Iaith Pesda mis Mawrth. Cefais y fraint o ymweld â Brenda Wyn Jones yn hytrach na siarad ar y ffôn, ac roedd hynny yn hyfryd. Dyma fy sylwadau ar gyfer rhifyn Ebrill.

**Gwylltio**

"Heb ei fai , heb ei eni" meddai'r ddihareb. Ac er bod gan rai dymer sy'n cael ei danio fel matsien mae eraill yn dawel iawn allu cadw'u pen. Dywedwn bod rhywun wedi "cael y myll" neu wedi "myllio" yn "gweld dim" neu mynd "i dop caets" pan yn gwylltio. Dyma un arall:-

***colli limpin*** – Daw'r gair limpin o'r gair Saesneg "lynch pin" sef pin haearn a roddir drwy dwll ym mhen echel i gadw'r olwyn sydd arni yn ei le. Roedd y chwarelwyr, efo wagenni'n rhan mor gyffredin o'u gwaith, yn gyfarwydd iawn â linpin. Pan fyddai limpin yn torri yna byddai'r olwyn yn dod oddi ar yr echel, a dyna'r wagan yn gadael y cledrau. Felly death ***colli limpin*** yn ymadrodd am wylltio. Mae "Paid â'i daflu oddi ar ei echal" hefyd yn cael ei ddefnyddio pan fo rhywun yn fwriadol geisio gwylltio rhywun arall.

Ambell ymadrodd:

"Welais ti Huw? Mae o wedi gadael coblyn o lanast ar ei ôl."

"Na, mae o wedi ***heglu*** hi am adra."

Hynny ydi, wrth gwrs, mae o wedi dianc, wedi rhedeg i ffwrdd. Gair arall am goesau ydi heglau e.e. "Symud dy hegla i mi fedru mynd heibio". Felly pan mae rhywun yn ei heglu hi, mae yn cymeryd y goes ac yn rhedeg oddi yno yn bur sydyn.

***"Tân 'dani"*** medda ni os ydym yn daer am i rywun wneud rhywbeth yn gyflymach. Tybed ai o'r chwarel y death yr ymadrodd! Er mwyn rhoi mwy o nerth i drên stêm byddai'n rhaid i'r taniwr rawio mwy o lo ar y tân, a fyddai'n gwneud i'r dŵr yn y tanc (boilar) uwchben i ferwi a chynhyrchu stêm i wthio'r pistonau er mwyn troi'r olwyn.

***Llnau'n lân***. Wel, chlywsoch chi am neb yn llnau'n fudur mwy na thebyg, ond dyna oedd cymydog i mi wedi bod yn ei wneud y diwrnod y gelwais heibio efo Llais Ogwan. Nid llnau ond llnau'n lân, sef yr ychydig bach yn fwy na'r arferol, symud ddodrefn a phob ornament ac i mewn i bob twll a chornel. Nid yn rhoi "sping clîn", ond yn bendant yn mynd i lawer mwy o drafferth.

***Wedi mynd yn ffliwt***, hynny ydy pan fo pethau yn mynd o'i le neu o chwith. Does gen i ddim eglurhad am y dywediad yma. Tybed oes gan rywun syniad – buasai'n dda clywed.

Ymadrodd a glywodd Brenda Wyn Jones gan ei mam oedd "***Mi ddaw hi'n ddydd Gwenar arnyn nhwtha hefyd***" hynny pan fyddai pobl yn brolio am yr hyn oedd ganddynt, fel y byddai y bradwyr yn ei wneud pan gawsant eu cyflog ar ôl torri'r streic. Mae'n bur debyg mai cyfeiriad oedd at ddydd Gwener y Groglith, neu ddydd y Farn, pan ddaw rhyw fath o ddial arnynt.

Cyfeiriwyd hefyd at unrhyw beth oedd yn fawr fel "***cymaint â sêt fawr capal Jeriw***."

Ac i gloi, beth am yr ystafell fach breifat sydd yn y tŷ, neu ers talwm yng ngwaelod yr ardd?

Yn yr ysgol ers talwm byddai'n rhaid i'r plant roi llaw i fyny a gofyn am fynd i'r "toilet os gwelwch yn dda". Mawr oedd y syndod pan ddaeth prifathro newydd i un o ysgolion yr ardal a dweud wrth y plant y dylent ofyn am fynd i'r "geudy." A dweud y gwir, death yn bwnc trafodaeth am rhyw ychydig, ond fel popeth arall cyn hir daeth yn ran o natur y plant i ofyn y cwesiwn heb feddwl.

Tŷ bach a lle chwech wrth gwrs sydd yn dod yn fwyaf naturiol, ond clywais lawer yn dweud bod hwn a hwn wedi gorfod diflannu i "***droi clôs***" yn rhywle ar ganol mynd am dro, ac wrth gwrs dynion fyddai rhain!

Tan y tro nesaf, cofiwch gysylltu: Mary Jones, 42 Erw Las, Bethesda. 07443047642 neu maryeds@hotmail.co.uk


**Ymgeiswyr Dyffryn Ogwen**

Plaid Cymru Party of Wales

**Etholiad Cyngor Gwynedd Dydd Iau, 5 Mai 2022**



**Beca Roberts • Einir Williams • Rheinallt Puw • Dafydd Meurig • Paul Rowlinson**
**Tregarth a Mynydd Llandygai • Gerlan • Canol Bethesda • Arllechwedd • Rachub**

Hyrwyddwyd gan Beca Roberts, Einir Williams, Rheinallt Puw, Dafydd Meurig, Paul Rowlinson, Plaid Cymru, 8 Stryd y Castell, Caernarfon, LL55 1SE



Wythnos Cymorth Cristnogol

# Newynu am gyfiawnder

**Hanes Wythnos Cymorth Cristnogol 2022 ac ymdrech un person i godi arian**

Mae heriau ein byd yn aml a dyrys. O ryfel yn Wcráin, newyn yn Affganistan ac effeithiau'r argyfwng hinsawdd trwy'r byd i gyd, byddai'n hawdd troi'n fewnblyg a digalonni. Ond yn ystod Wythnos Cymorth Cristnogol (15-21 Mai) mae cyfle i ymateb yn gadarnhaol i'r heriau hyn. Trwy roi, gweithredu a gweddïo, gallwn wneud gwahaniaeth go iawn.

Bydd nifer ohonoch yn gweithio'n galed dros yr Wythnos. Diolch ichi. Bydd pob math o weithgareddau'n digwydd ledled Cymru, yn cynnwys nifer o unigolion a grwpiau sydd am gyflawni her y 300,000 cam trwy fis Mai.

Un person sydd am gyflawni'r her hon ydi'r Parchedig Andrew Sully o Landudno. Mae wedi gosod nod sywlweddol iawn iddo'i hun – sef cerdded o'r Waen i Gaernarfon gan gysylltu pob un o gestyll y gogledd ar y ffordd, 22 ohonynt! Trwy wneud hyn mae am godi ymwybyddiaeth o'r her sy'n wynebu pobl Zimbabwe.

Yng nghefn gwlad Zimbabwe mae saith o bob deg merch yn dibynnu ar ffermio i ennill bywoliaeth a chynnal eu teulu. Ond heb ddŵr glaw, ni all y merched dyfu digon o fwyd. I ferched fel Jessica Mwedzi mae sychder yn golygu fod pob dydd yn ymdrech i oroesi. Mae'n gweithio'n galed ar y fferm, ond all bwyd ddim tyfu ar dir sych. Mae Jessica'n gaeth i'r argyfwng hinsawdd, a'r sychder yn gwneud teuluoedd yn fwy newynog, yn dlotach ac yn dwyn y cyfle i ennill bywoliaeth gydag urddas oddi arnynt.

Meddai Andrew, 'Fy ngobaith yw y bydd pobl yn teimlo y gallant ymuno gyda mi ar rai teithiau neu ran o daith bob dydd nid yn unig i godi fy ysbryd ond er mwyn creu'r ymdeimlad o bobl Dduw yn symud a gweithredu i ddod a newid i'r byd. Mae codi arian yn yr awyr agored yn iach ac yn amgylcheddol, mae hefyd yn rhoi cyfle i ni sefyll ochr yn ochr â merched fel Jessica yn Zimbabwe sydd yn cerdded ymhell bob dydd i nôl dŵr ar gyfer y teulu a'r cnydau.' Mae modd noddi Andrew trwy ei dudalen JustGiving: www.justgiving.com/fundraising/andrew-sully2

Os nad oes gweithgaredd Wythnos Cymorth Cristnogol yn eich ardal chi, beth am gefnogi Andrew? Gallwch wneud hynny mewn sawl ffordd – yn cynnwys ymuno gydag ef ar ran o'r daith!

Os oes gennych ddiddordeb mewn helpu neu os am wybod mwy am Wythnos Cymorth Cristnogol yn gyffredinol, cysylltwch â'n swyddfa yng Nghaerdydd. Gallwch ffonio 029 2084 4646 neu anfon ebost i **cymru@cymorth-cristnogol.org**. Am fwy o fanylion am yr Wythnos ewch i: **caweek.org**

# E-lyfrau ac E-lyfrau Llafar am ddim i ddisgyblion Blynyddoedd 3-6 ysgolion cynradd Gwynedd

I nodi Diwrnod y Llyfr, mae Gwasanaeth Llyfrgell Ysgolion Gwynedd yn lansio cynnig e-lyfrau ac e-lyfrau llafar i ddisgyblion blynyddoedd 3 i 6 yn rhad ac am ddim drwy wasanaeth Borrowbox fel rhan o wasanaeth ar gytundeb i ysgolion cynradd y sir.

Mae'r cynllun yn defnyddio fersiwn o Borrowbox, sef llyfrgell ddigidol sy'n galluogi defnyddwyr i fenthyg e-lyfrau neu lyfrau llafar i'w darllen neu wrando ar eu dyfais glyfar neu gyfrifiadur. Mae'n cynnwys detholiad o adnoddau yn y Gymraeg a'r Saesneg sy'n addas i blant, felly nid oes modd iddynt lawrlwytho llyfr anaddas neu gyda chynnwys aeddfed.

Dywedodd Nia Gruffydd, Rheolwr Llyfrgelloedd Cyngor Gwynedd: "Mae galw cynyddol wedi bod am e-lyfrau Cymraeg yn benodol yn sgil y pandemig a'r cyfnodau clo, ac yr ydym yn falch o ymateb i'r galw drwy gynnig dewis eang o lyfrau yn Gymraeg a Saesneg i blant drwy lyfrgell digidol sydd bob amser ar agor."

Meddai'r Cynghorydd Gareth Thomas, Aelod Cabinet Datblygu'r Economi a Chymuned Cyngor Gwynedd, sydd â chyfrifoldeb dros Lyfrgelloedd Gwynedd: "Rydym yn falch o fedru ehangu'r cynllun pwysig yma drwy'r gwasanaeth llyfrgelloedd ysgolion er mwyn sicrhau fod adnoddau ar gael ar unrhyw adeg o'r dydd mewn modd hwylus i ddarllenwyr ifanc."

Ychwanegodd y Cynghorydd Cemlyn Williams, Aelod Cabinet Addysg Cyngor Gwynedd: "Mae'r cynllun eisoes wedi bod ar gael i ddisgyblion blynyddoedd 3 a 4 ac mae wedi profi'n boblogaidd, felly mae'n braf ei fod wedi cael ei ymestyn hyd at flwyddyn 6 a bod mwy o'r



# Penodi swyddog i arwain gwaith hybu a hyrwyddo'r Gymraeg yng Ngwynedd

Yn dilyn penderfyniad Cabinet Cyngor Gwynedd i fuddsoddi £203,880 i ddatblygu gwaith menter iaith y sir, mae Pen Swyddog newydd wedi ei benodi ar gyfer Hunaniaith.

Wedi blynyddoedd o weithio yn y maes cynllunio iaith, bydd Iwan Hywel, sy'n byw yn Nyffryn Ogwen yn cychwyn ar y gwaith fel Pen Swyddog Hunaniaith ym mis Mai. Ar hyn o bryd, mae'n Arweinydd Tîm Mentrau Iaith Cymru.

Meddai: "Mae hon yn swydd heriol ond cyffrous tu hwnt, mae gennym gyfle i sefydlu Hunaniaith fel menter iaith annibynnol fydd yn creu incwm fydd yn mynd nôl i hybu'r iaith Gymraeg yng Ngwynedd.

"Y pethau pwysicaf fydd cydweithio, efo mudiadau cymunedol eraill, a gwrando, pobl sy'n bwysig.

"Drwy wrando ar lais pobl Gwynedd a'u cynnwys ymhob cam o'r ffordd gallwn sicrhau y bydd y fenter Iaith yn gweithio er budd yr iaith a thrigolion ein sir, dwi'n edrych ymlaen yn ofnadwy i ddechrau ar y gwaith."

Wrth groesawu Iwan Hywel ar ei benodiad, dywedodd y Cynghorydd Nia Jeffreys, Aelod Cabinet Cefnogaeth Gorfforaethol Cyngor Gwynedd sy'n gyfrifol am yr iaith Gymraeg:

"Mae gan Gyngor Gwynedd hanes hir o hybu a gwarchod yr iaith. Rydan ni yn awyddus i weld Hunaniaith yn fenter iaith gref, a fydd yn y pendraw yn gweithredu yn annibynnol o'r Cyngor, gan arwain y gwaith o sicrhau dyfodol llewyrchus i'r Gymraeg mewn cymunedau ar hyd a lled ein sir.

"Er mwyn cefnogi'r ymdrechion yma, mae Cabinet y Cyngor wedi ymrwymo i fuddsoddi dros £200,000 yn ychwanegol i hybu a hyrwyddo'r Gymraeg yma yng Ngwynedd. Bydd hyn yn golygu cryfhau presenoldeb ymarferol staff Hunaniaith ar lawr gwlad yng nghymunedau Gwynedd.

"Rydw i'n falch iawn o groesawu Iwan i'r swydd newydd fel Pen Swyddog Hunaniaith gan arwain ar y gwaith allweddol yma.

"Wedi gweithio i Fentrau Iaith Cymru ers blynyddoedd, mae'n dod â phrofiad a brwdfrydedd dros y Gymraeg ac rwy'n edrych ymlaen at ei weld yn dechrau ar y swydd ym mis Mai."

Ychwanegodd Dafydd Iwan, Cadeirydd Grŵp Strategol Hunaniaith:

"Mae Hunaniaith yn ffodus iawn o gael un mor brofiadol ym maes y Mentrau Iaith i arwain y cyfnod newydd hwn yn ei hanes. Edrychaf ymlaen yn fawr i weld Iwan yn gafael yn yr awenau."



Iwan Hywel

disgyblion yn gallu elwa o'r adnodd defnyddiol a phwysig yma."

Dywedodd Iwan Davies, Pennaeth Ysgol Rhiwlas: "Diolch yn fawr i Wasanaeth Llyfrgelloedd Ysgolion Gwynedd am ymestyn yr adnodd hwn i flynyddoedd 5 a 6.

"Mae disgyblion blwyddyn 3 a 4 eisoes yn defnyddio BorrowBox ac mae'n arf ychwanegol i ddenu plant i ddarllen a gwella eu sgiliau llythrennedd.


"Mae'r broses gofrestru yn rhwydd iawn ac mae'r plant wedi derbyn manylion mewngofnodi drwy'r ysgol."



I ddefnyddio Borrowbox Gwasanaeth Llyfrgell Ysgolion Gwynedd, ewch i https://gwyneddsls.borrowbox.com/ gan fewngofnodi gyda'r manylion a ddarparwyd gan eich ysgol, neu gallwch lawrlwytho'r ap ar ddyfais glyfar drwy'r App Store neu Google Play Store.

Os oes gennych unrhyw ymholiad pellach am y gwasanaeth, gallwch e-bostio GLLY@gynedd.llyw.cymru

**Cynllun Arfaethedig Cae Cymuned Talybont Proposed Community Field Plan**




## Sesiwn Galw i Mewn

## Drop-in Session

5yh/pm - 7yh/pm
4 Ebrill / April 2022


Y Festri, Capel Bethlehem
Talybont

Hoffai Cyngor Cymuned Llanllechid glywed eich barn am y cynlluniau arfaethedig ar gyfer Cae Pêldroed Talybont, dewch draw i'r sesiwn galw i mewn i gynnig eich sylwadau.

Llanllechid Community Council would like to hear your views on the proposed development for Talybont Football Field, come to the drop-in session to offer your comments.

Manylion Cysylltu / Contact Information: cyngorllanllechid@ogwen.org

# CROESAIR



**AR DRAWS**

1 Blas cryf a sbeislyd o deulu'r '*allium*' (6)
5 Math o redyn na fedr gerdded (6)
8 Un sy'n siwr o fanteisio ar 18 Ar Draws (4)
9 Ynni gwahanol (4,4)
10 Un o ganeuon Tecwyn Ifan, i'w chanu'n y nos efallai *(2012)* (3,2,3)
11 Talent arbennig (4)
12 Anrhydedd am reidio ceffyl ? (6)
14 Nia fel pobydd yn dychwelyd efo burum (6)
16 " - - - - ar do yn lloches" medd y cynganeddwr (4)
18 Cyfrol sy'n gymorth i brydyddion di-glem *(R.Stephens 1978)* (8)
20 Siapiau M.O.T. (8)
21 Mae'n rhyfedd ar yr aswy (4)
22 Y mawr a'r bach sy'n cysgodi traethau'r Creuddyn (6)
23 " - - - - - -, du - - - - - -, A wnaeth y diawl â'i ddwylo" *(hen bennill)* (6)

**I LAWR**

2 Trefaldwyn (di-Gymraeg) yn ne U.D.A. yw prif dref y dalaith hon (7)
3 Adeilad o gig a gwaed ! (3-2)
4 Gŵyl y Grog (6,7)
5 O bosib, cyfrol enwocaf bro 'Llais Ogwan' (2,3,3,5)
6 Lloerig (7)
7 Rhai gwahanol (5)
13 Ceisio cael hyd i het a chôt Wil (7)
15 Y rhai sydd heb fod yn hen (7)
17 Rhag bod yn damp i'w gwisgo *(ar lafar)* (5)
19 Cais am nwyddau i'w prynu (5)

**ATEBION CROESAIR MAWRTH 2022**

**AR DRAWS** 1 Dydd Iau, 5 Esgid, 9 Amlygrwydd, 10 Aiff, 11 Rydd, 12 Moeswersi, 14 Gro, 16 Bywyd, 18 Daw, 19 Adnabyddus, 21 Gwg, 22 Taw, 23 Prysurdeb, 25 Deiar, 26 Amynedd

**I LAWR** 2 Ymladd, 3 Iago Mab 4 Ulw, 5 Eiddew, 6 Gwaered, 7 Diffeithwch Gobi, 8 Carreg Wastad, 13 Erwydd, 15 Oen Swci, 17 Dysgub Y, 20 Bupur, 21 Godre, 24 Yna Un gwall bach a gafwyd, sef 'graddrad' yn lle 'gwaered' (6 I Lawr).

Dyma'r rhai anfonodd atebion cwbl gywir: Emrys Griffiths, Rhosgadfan; Doris Shaw, Bangor; Dilys Wyn Griffith, Abergele; Barbara Jones, Talybont; Gill King, Mynydd Llandygai; Rosemary Williams, Dulcie Roberts, Gareth Oliver, Elizabeth Buckley, Tregarth; Dilys Parry, Jean Vaughan Jones, Rhiwlas; M. A. Jones, Llanllechid; Gaynor Elis-Williams, Rita Bullock, Bethesda; Gwyneth Jones, Glasinfryn.

Yr un a ddaeth o'r het yn fuddugol y tro yma oedd ymgais Dilys Wyn Griffith, Sŵn yr Afon, 3 Tower Way, Abergele, Conwy LL22 7AY. Llongyfarchiadau mawr i chi. Atebion erbyn 6ed Mai, 2022 ***fan bellaf*** i 'Croesair Ebrill', Bron Eryri, 12 Garneddwen, Bethesda, Gwynedd LL57 3PD

# Damwain awyren uwchlaw'r Gerlan - gair pellach



Yn y rhifyn diwethaf o'r *Llais* cyhoeddwyd hanes yr awyren ryfel Wellington 11 a darodd y ddaear uwchlaw'r Gerlan yn 1942, pryd y lladdwyd y criw o bump. Nodwyd yn yr erthygl fod yr arian a gasglwyd yn y Gerlan wedi ei ddefnyddio ar gyfer gosod coflech ym maes awyr yr R.A.F. yn Moreton-in-March i'w coffáu. Bûm yn ymchwilio ymhellach i'r hanes a chanfod mai cyfraniad at gronfa'r Llu Awyr oedd y swm a gasglwyd. Deuthum o hyd i'r adroddiad canlynol yn rhifyn 18 Ionawr, 1943 o'r *Herald Cymraeg*:

'CASGLU. - Fel arwydd o werthfawrogiad a pharch, aeth trigolion Gerlan i gasglu rhyw gyfran i'r R.A.F. Benevolent Fund; ac mewn tri diwrnod union cyrhaeddodd y cyfanswm o 30p. 14s. 6c ac fe'i gyrrwyd ar unwaith i'r Gronfa. Roedd y merched a fu'n casglu o'r tri addoldy sydd yn y pentref. Dyma'u henwau: Mrs. Tyrrer, Brynhyfryd; Mrs. J.E. Jones, Morgan Street; Mrs. Griffiths, Bont Uchaf; Mrs. Davies, 6/2 Well Street; Mrs. Ffrancon Williams, Gerlan Road; Mrs. Watkins, 2/1 Well Street; Mrs J.R. Hughes, Hill Street; a Mrs Bowen, Gwernydd. Lluniwyd y trefniadau gan weinidog Presbyteraidd, a chan Mr. Watkins a Mr. William Owen a Mr. Tyrrer.'

Byddai swm y casgliad yn cyfateb i oddeutu £1,373 heddiw – swm anrhydeddus gan drigolion cymdogaeth ddigon tlawd ar adeg o ryfel, efo'r tadau a'r meibion i ffwrdd yn y lluoedd arfog.

**Andre Lomozik**

# Marchnad Ogwen

**Mai 14eg**
**9.30am - 1pm**
**Neuadd Ogwen**

Bwydydd, Crefftau, Lleol

www.marchnadogwen.co.uk
Facebook





gwyneddddigidol
digitalgwynedd

YMA I'CH HELPU

**Eich cefnogi chi i wneud mwy ar-lein**

- Cymorth personol gyda sgiliau digidol yn seiliedig ar eich diddordebau
- Sesiynau ar adeg ac mewn lle sy'n addas i chi
- Gallwn hefyd ddarparu dyfeisiau digidol, data neu gysylltiad mifi ar eich cyfer

**Ffoniwch ni am ddim ar 0808 196 5883**
digitalgwynedd@citizensonline.org.uk

UK Government Wales
Llywodraeth y DU Cymru

Citizens Online


**Annwyl olygydd**,

Nodyn i roi gwybod i'ch darllenwyr fod yr Ysgwrn, cartref Hedd Wyn yn Nhrawsfynydd, yn ymestyn eu cynnig i grwpiau eleni trwy roi mwy o brofiadau a theithiau tywys yn yr awyr agored.

Yn ogystal a'r teithiau tywys llawn o amgylch y ffermdy, byddwn eleni yn cynnig teithiau i grwpiau o amgylch y ffridd a phentref Trawsfynydd.

Mae'r cyfnod clo a'r cyfyngiadau dros y ddwy flynedd diwethaf wedi gwneud i ni edrych yn ehangach ar botensial yr Ysgwrn a sut y gallwn ni wneud gwell defnydd o'r gofod tu allan er mwyn rhoi darlun cyflawn o fywyd Hedd Wyn.

Fel mab fferm a bachgen ifanc, mae'n debyg y byddai wedi treulio cyfran helaeth o'i fywyd yn y ffridd neu y pentref, ac rydym yn awyddus i gynnwys yr amgylchedd ehangach y cafodd ei fagu ynddi yn ein teithiau tywys i grwpiau.

Mae ymweliad grŵp yn costio £12.50 y pen, ac yn cynnwys taith o amgylch y ffermdy, sgwrs am fywyd Hedd Wyn a phaned a chacen yn y caffi.

Os ydych chi yn awyddus i fynd ar un o'r teithiau tywys newydd, unai yn hytrach na'r daith o amgylch y ffermdy neu yn ychwanegol at hynny, mae croeso i chi gysylltu i drafod pris trwy e-bostio yr.ysgwrn@eryri.llyw.cymru.

Mi fyddwn ni hefyd yn agor i'r cyhoedd ar y 1af o Ebrill, 2022 ac mi fydd croeso i aelodau'r cyhoedd grwydro llwybrau'r ffridd am ddim, ond dim ond i grwpiau fydd y cynnig o daith dywys o amgylch y ffridd a'r pentref.

I archebu tocynnau neu am fwy o fanylion, ewch i www.yrysgwrn.com

Gan obeithio eich gweld yn yr Ysgwrn yn fuan,

**Naomi Jones**, Pennaeth Treftadaeth
Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri



# Theatr Bara Caws yn ôl yn Neuadd Ogwen

Mae'n hyfryd cyhoeddi y gwelwn ni Theatr Bara Caws yn perfformio drama newydd yn Neuadd Ogwen ym mis Mai, gyda Betsan Llwyd yn cyfarwyddo. Mae manylion "Draenen Ddu" i'w gweld ar y dudalen hon. Pris y tocynnau yw £10, ond dim ond £6 i blant a myfyrwyr. I'w cael ar wefan Neuadd Ogwen neu wrth y drws. Trefnir y noson gan Caban Gerlan.

THEATR BC BARACAWS

# DRAENEN DDU

Addasiad Angharad Tomos o'r ddrama

BLACKTHORN gan Charley Miles

Actorion:
Rhian Blythe
Rhys ap Trefor

**Ar yr wyneb mae'n blanhigyn cwbl wahanol, ond yr un yw'r gwraidd.**

Dau o blant yn unig sydd wedi eu geni yn y pentref ers cenhedlaeth, ac mae'r ddau'n byw ym mhocedi ei gilydd, ond wrth iddynt dyfu mae'r clymau'n dechrau datod.
Mae cefn gwlad yn newid a'r hen draddodiadau ac enwau ffermydd a chaeau dan fygythiad.
Mae'r ddrama yma'n siŵr o daro tant gyda'n cynulleidfaoedd cymunedol heddiw.

Nos Iau 12-05-22 7:30 **Neuadd Goffa, Felinheli**
Tocynnau: Mari Emlyn 07880 031 302

Nos Wener 13-05-22 7:30 **Neuadd Ogwen, Bethesda**
Tocynnau: www.neuaddogwen.com

**Canllaw oed 14+**

# CHWARAEON

## Saith deg ac yn dal i chwarae



Mae cyrraedd oed yr addewid yn gyfle i'r rhan fwyaf ohonom roi ein traed i fyny ac ymlacio dipyn, ond nid i Elwyn ('Els Bach') Hughes. Mae'n amser iddo fo roi ei draed i mewn i bâr o sgidiau pêl-droed a gwibio i lawr yr asgell chwith unwaith eto!

Yn wreiddiol o Faes Bleddyn, mae Els yn fab i'r diweddar Bert (siop Bradleys, Bangor) a Gwyneth, ac yn frawd i'r diweddar Eileen, Bryan ac Anwen. Cyn ymddeol, fe fu Els yn feddyg gyda GIG Cymru am 42 mlynedd – 34 ohonynt fel meddyg teulu yn gwasanaethu pobl Ystradgynlais, Cwm Tawe. Mae'n briod gyda Melanie (41 blynedd), yn dad i bedair o ferched, Bethan, Lowri, Catrin a Sioned ac yn daid i dri.

Mae Els wedi chwarae pêl-droed am dros 60 o flynyddoedd. Yn ystod ei yrfa mae o wedi chwarae i dimoedd enwog iawn. Tîm "Canol" stad Maes Bleddyn, Ysgol Llanllechid, Ysgol Dyffryn Ogwen, Bethesda, Llechid Celts, Coleg y Normal, Prifysgol Lerpwl, tîm Meddygon Caerdydd, tîm Cymry Caerdydd ac Ystradgynlais. Ac ar hyn o bryd, mae'n aelod o dîm yr 'Ugly Tackle', Abertawe.

Fe fues i'n ffodus iawn o gael sgwrs efo fo rhwng gemau pêl-droed yn ddiweddar:



**Be ydi'r cof cyntaf sydd gen ti am chwarae pêl-droed?**

Chwarae ar y cae sydd yng nghanol stad Maes Bleddyn o gwmpas 1960 pan oeddwn tua wyth oed efo hogiau fel Trefor Morris, Dafydd Davies (y gôl-geidwad) a Dafydd a Brian Jones. Wedi hynny, ar gae chwarae Rachub efo Elfed Pritchard, Ronald Evans, Gareth Owen, John Baston, Norman Young ac eraill.

**Beth oedd dy uchafbwyntiau pêl-droed yn ystod dy gyfnod yn Ysgol Dyffryn Ogwen rhwng 1963 a 1970?**

Gwylio fy arwyr, Huw Roberts, Gareth Jones, Richard Lloyd Jones (Mêt), Eirwyn Jones, Cynrig Williams, Elwyn Parry ac Elwyn Jones (Minj) ayyb, yn chwarae i un o dimoedd mwyaf talentog a llwyddiannus yn hanes yr ysgol. Hefyd chwarae dros yr ysgol trwy gydol yr amser y bues i yno.

**Fuost ti'n chwarae i dimoedd eraill yn ystod y cyfnod yma?**

Do, fe fues i'n chwarae i ail dîm Bethesda, efo Walter Williams a Dafydd Arfon, ar ddiwedd y chwedegau. Am ryw dri mis yn 1971, cyn mynd i'r coleg yng Nghaerdydd, fe chwaraeais i dîm enwog y Llechid Celts efo Brain Corbri, Alan Hampshire, Evan Evans, Phil Watts,

Roger Owen ac Arwel Owen (Nymbar 1). Hogiau talentog bob un.

**1966 oedd blwyddyn Cwpan y Byd. Wyt ti'n cofio rhywbeth o'r gystadleuaeth?**
Yndw, roeddwn yn ffodus iawn i weld gemau grŵp Portiwgal, Brasil, Hwngari a Bwlgaria yn Goodison efo 'nhad. Fe welais hefyd gêm gyffrous yr wyth olaf rhwng Gogledd Korea a Phortiwgal. Roedd y sêr i gyd yn disgleirio – Pele, Garincha, Gerson, Tostao, Eusebio a Torres.

**Pa dîm pêl-droed ti'n ei ddilyn a phwy ydi dy hoff chwaraewr?**
Man U. wrth gwrs! Wedi eu dilyn ers dyddiau trychineb Munich, 1958. Does 'na neb i gymharu â George Best a Dennis Law yn fy marn i.

**Ymadewaist â Bethesda yn 1970. Lle est ti wedyn?**
Fe es i Brifysgol Lerpwl i astudio Mathemateg am dymor, ond penderfynais adael i ddilyn cwrs meddygaeth yng Nghaerdydd. Yn ystod y cyfnod roeddwn yn chwarae i dîm y brifysgol. Chwaraeais hefyd i dîm Coleg y Normal, Bangor am gyfnod byr, efo fy ffrind, Dafydd Arfon Jones.

**Sut le oedd yn y brifddinas ar ddechrau'r saithdegau?**
Lle cyffrous a difyr iawn. Fe chwaraeais i dîm Cymry Caerdydd gyda Richard Lloyd Jones (Mêt) rhwng 1971 a 1972 ac wedyn i dîm y coleg meddygol am dair blynedd rhwng 1973 a 1976, fel capten yn fy mlwyddyn olaf. Ymunais eto â Chlwb Cymry Caerdydd (CYMRIC) rhwng 1978 a 1982. Gareth Huws (cyn-berchennog tafarn y Mochyn Du) oedd capten y tîm amrywiol a diddorol yma. Yn ffodus, rydym yn dal i gwrdd am beint a phryd o fwyd o dro i dro.

**Fe wnest ti adael Caerdydd yn 1982 i ddechrau ar dy yrfa fel meddyg teulu. Erbyn hyn roeddet yn briod gyda Melanie ac roedd pedair o ferched ar y ffordd. Be ddigwyddodd i'r bêl gron yn ystod y cyfnod prysur yma yn dy fywyd?**
Yn anffodus, bu rhaid i mi ffarwelio â phêl-droed rhwng 1982 a 1985. Wedi hynny, fe fues yn chwarae ambell i gêm gyda meddygon eraill Abertawe cyn chwarae i glwb pêl-droed Ystradgynlais am flwyddyn. Ar ddechrau'r nawdegau ymunais â chriw o feddygon ac eraill i chwarae gêm fwy hamddenol ar feysydd astro turf ger y môr yn Abertawe. Dw i wedi chwarae efo'r criw difyr ac amrywiol yma ers hynny.

**Ti'n sôn fod y cyfnod rhwng 1991 a 2022 yn gyfnod o chwarae "hamddenol". Ti o ddifri?**
'Ugly Tackle' ydi enw'r tîm, ond dydi hynny ddim yn adlewyrchiad o'n dull o chwarae! Roedd Paul Thorburn (cyn-gapten tîm rygbi Cymru) yn ymuno â ni, a hefyd Stuart Davies (cyn-wythwr Cymru). Enw enwog arall y buom yn chwarae efo fo oedd Toshack, nid John, ond ei fab Cameron (hyfforddwr efo Leeds United bellach). 'Dan ni hefyd wedi bod ar deithiau tramor i Barcelona, Amsterdam, Berlin a Krakoff.

**Ti'n saith deg bellach. Ti wastad wedi chwarae ar yr asgell ac wedi cael dy gicio'n ddi-drugaredd am dros chwe deg mlynedd, ond ti'n dal i chwarae. Be ydi'r gyfrinach?**
Does 'na ddim cyfrinach. Dw i'n dal i fwynhau chwarae, dyna sy'n bwysig. Dros y blynyddoedd dw i wedi bod yn ffodus, ond dw i wedi cael mwy o anafiadau'n ddiweddar. Mae'r coesau'n gweithio yn o lew ar y funud. Mae'r rhan fwyaf o'r tîm dros chwe deg, felly dw i ddim yn teimlo'n rhy unig. Mae astro turf a chaeau 4G efo goleuadau wedi caniatáu i lawer ohonom estyn ein gyrfaoedd.

**Beth am y dyfodol, Els? Wna i ddim sôn am dy ymddeoliad, ond oes 'na rywun arall o'r teulu wedi etifeddu dy dalent a'th awwngerdd?**
Dwi'n hyderus fod fy ŵyr, Aryan, wedi etifeddu'r cariad tuag at y gêm, a phwy a ŵyr efo pedair merch, os bydd rhywun arall hefyd yn ymddangos yn y dyfodol!

**Diolch yn fawr i ti, Els. I gloi, oes gen ti air o gyngor i gynnig i'n pobl ifanc sydd ar ddechrau eu taith ac i'r rhai ohonom sydd dipyn bach yn fwy aeddfed?**
Mae ymarfer rheolaidd yn helpu i gadw'r corff a'r meddwl yn iach a heini. Mae'n bwysig ein bod ni i gyd yn parhau cyn hired ag y gallwn. Fel maen nhw'n dweud yn Saesneg "use it or lose it".

**(Roedd Elwyn Hughes yn cael ei holi gan Alwyn Llwyd, Caerdydd (Allt Penybryn, Bethesda gynt).**

## PLAID LAFUR DYFFRYN OGWEN

Cynhaliwyd cyfarfod deufisol y gangen trwy ZOOM tua diwedd mis Mawrth a phenderfynwyd peidio â chynnal y bore coffi arferol ar hyn o bryd.

Cafwyd adroddiad am waith Llywodraeth Cymru (e.e. y cynnydd mewn cyflogau gweithwyr cymdeithasol a'r cynllun peilot i roi £1600 y mis am ddwy flynedd i bobl ifanc sy'n gadael gofal), Cyngor Gwynedd (e.e. y cynllun i ddarparu chwech safle efo dŵr a chyfleusterau gwastraff ar gyfer cartrefi symudol a'r penderfyniad i roi diwrnod o wyliau i weithwyr y cyngor nad ydynt yn athrawon ar Fawrth yn y 1af) a Chyngor Bethesda (e.e. y datblygiad ar gyfer polisi gwyrdd y dyffryn a'r broblem efo torri glaswellt yn y fynwent).

Cymeradwywyd bwriad Dr Huw Vaughan Jones, Llwyn Bedw i sefyll fel ymgeisydd Llafur Cyngor Gwynedd yn Ward Tregarth-Mynydd Llandygai. Y mae Huw a'i deulu wedi bod yn byw yma am dros ddeng mlynedd ac y mae ganddo fusnes Technoleg Gwybodaeth. Mae'n is-gadeirydd Llywodraethwyr Ysgol Llanllechid ac yn Gadeirydd Pwyllgor Cyllid Llywodraethwyr Ysgol Dyffryn Ogwen, yn ogystal â gwneud gwaith gwirfoddol efo adran troseddau seibr Heddlu Gogledd Cymru.

Wedi'r cyfarfod, daeth newyddion da - sef bod K.C. Gordon, Corbri, Llanllechid wedi cael tystysgrif gan y Prif Weinidog, Mark Drakeford ac Ysgrifennydd Llafur Cymru i ddiolch iddo am wasanaeth hir i'r Blaid Lafur a'r Blaid Cydweithredol.

Roedd K.C wedi bod yn aelod ers 1953 ac wedi helpu'n lleol, yn etholaethol, yn sirol a rhanbarthol.


**Elwyn Jones & Co**

hefyd yn masnachu fel
Parry Davies Clwyd-Jones & Lloyd LLP

- Cyfreithwyr -

123 Stryd Fawr
Bangor
Gwynedd
(01248) 370224

*Ar gyfer eich holl anghenion cyfreithiol*
*Gwasanaeth dwyieithog personol a chyfeillgar*

*Swyddfeydd eraill:*
*Llangefni* (01248) 723106
*Porthaethwy* (01248) 719517
*Benllech* (01248) 852782
*Caernarfon* (01248) 673616
*Pwllheli* (01758) 703000

# CHWARAEON




## Pêl-Rwyd

Mae tîm Pêl-Rwyd Bethesda wedi cychwyn yn ôl eleni, ac yn chwarae yng Nghynghrair Gwynedd ac Ynys Môn. Cafwydd llwyddiant yn ddiweddar pan gafwyd buddugoliaeth o 35 – 24 yn erbyn Porthmadog, gan sicrhau'r pedwerydd safle yn y gynghrair. Yn y llun mae Kirsty Jones, Nerys Jones, Bethan Williams, Sian Elin, Ceri Ogwen, Georgia Jones a Sophie Williams. Hefyd wedi chwarae yn ystod y tymor mae Lowri Burgess, Bid Webb, Emma Williams, Angharad Beech, Cadi Williams, Sioned Owen, Sioned Pierce a Nia Wyn Roberts. Mae'r clwb yn cynnig sesiwn sy'n agored i bawb bob nos Lun am 8yh ym Mhlas Ffrancon am £3.

**CLWB PÊL-DROED BETHESDA ATHLETIC**

## Edrych ymlaen at gemau cyffrous



Mae'r tîm lleol, ifanc, talentog a brwdfrydig yn mynd o nerth i nerth ac yn chwarae pêl droed cyffrous, ac mae diwedd y tymor yn edrych fel y bydd yn un cyffrous iawn hefyd! Ar ddiwedd mis Mawrth, maent yn eistedd ar ben y gynghrair (haen 5) a llwyddwyd i sgorio 113 gol - y nifer mwyaf o goliau y tymor hwn gan unrhyw glwb o fewn y gynghrair.

Gyda phenllanw'r tymor o fewn golwg, clybiau Llannerch y Medd, Talysarn a Bae Cemaes yw'r cur pen mwyaf i ni - y tri clwb efo gemau mewn llaw. Rydym angen chwarae yn erbyn y tri chlwb felly gobeithio y cawn lwyddiant yn eu herbyn yn ystod yr wythnosau nesaf. Gobeithio y daw buddugoliaethau sy'n golygu y byddent ar frig yr adran ar ddiwedd y tymor.

Yn rownd go-gyn-derfynol cystadleuaeth Cwpan Iau Arfordir Gogledd Cymru ar 12 Chwefror, bu cystadlu brwd rhwng yr hogiau a thîm Llanfairpwll, a hynny mewn gwynt a glaw hegar iawn. Gorffennodd y gem yn gyfartal, dwy gôl yr un. Yn anffodus, colli 7-6 ar giciau o'r smotyn oedd ein tynged. Er y siom y diwrnod hwnnw, bu llwyddiant mewn gêm Cwpan y Gynghrair yn erbyn Bodorgan ddechrau Mawrth felly ymlaen â ni i'r rownd nesaf.

Nid yw trefniadau gemau Ebrill wedi eu cyhoeddi wrth i'r Llais fynd i'r wasg ond cadwch eich llygaid ar gyfer hysbysebion manylion y gemau.

Dewch draw i Barc Meurig! Bydd croeso mawr i chi yno i roi cefnogaeth i'r hogiau lleol ac ar ben hynny, cewch wledd o bêl droed!!

**Rhan uchaf y tabl**

| | Chwarae | Pwyntiau |
|---|---|---|
| 1. Bethesda | 22 | 50 |
| 2. Bae Cemaes | 21 | 48 |
| 3. Llannerch y Medd | 19 | 47 |
| 4. Talysarn | 19 | 43 |

CHRIS GRIFFITHS CYF
Trwsio ffenestri upvc, drysau, cloeau, bachau, twll llythyrau ac unedau gwydr wedi chwythu



18 Carreg Felin
Llandegfan
Ynys Môn
LL59 5YB
☎ 01248 713 369 neu 07813 455653

J. TEMPLE MORRIS A'I FAB
Pob Math o Waliau Cerrig,
Ffensio, Tarmacio a Thirlunio.
Gwaith gyda peiriant tyrchu bach.
07770 900531
01248 600282
jtemplemorris@btinternet.com

BARBWR OGWEN



Torri Gwalltiau
Dynion a Phlant gan Alison
Rhaid gwneud apwyntiad.
Ffoniwch: 07796 038824